

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

|                                      |  |
|--------------------------------------|--|
| Lleoliad:                            | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:                          |
| Committee Room 4 – Tŷ Hywel          | Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor                                |
| Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2021 | Kayleigh Imperato – Dipwrwy Glerc                                |
| Amser: 09.00                         | 0300 200 6373  |
|                                      | <a href="mailto:Deisebau@senedd.cymru">Deisebau@senedd.cymru</a> |

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant  
(Tudalennau 1 – 52)
- 2 Deisebau newydd COVID-19
- 2.1 P-05-1067 Caniatáu i bob siop sy'n gwerthu eitemau dianghenraig barhau i fasnachu yn ystod y cyfnod cyfyngiadau 17 diwrnod  
(Tudalen 53)
- 2.2 P-05-1068 Caniatáu cyfarfodydd ymbellhau cymdeithasol mewn gerddi preifat i ddilyn y wyddoniaeth ac osgoi teimlo'n ynysig  
(Tudalennau 54 – 57)
- 2.3 P-05-1082 Gadewch i gorau ymarfer dan do os ydyn nhw'n cynhyrchu asesiad risg llawn i atal haint C-19  
(Tudalennau 58 – 60)
- 2.4 P-05-1101 Caniatáu i gefnogwyr fynychu digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru  
(Tudalennau 61 – 63)



- 2.5 P-05-1102 Caniatáu o leiaf un rhiant neu warcheidwad i wylio gemau pêl-droed sydd wedi'u trefnu i blant  
(Tudalennau 64 – 66)
- 2.6 P-05-1117 Rhowch y Brechlyn COVID i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth  
(Tudalennau 67 – 70)
- 2.7 P-05-1119 Blaenoriaethu athrawon, a staff ysgolion a gofal plant ar gyfer brechiadau COVID-19  
(Tudalennau 71 – 73)

## **Deisebau Newydd Eraill**

- 2.8 P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!  
(Tudalennau 74 – 81)
- 2.9 P-05-1079 Dylid diogelu Gwarchodfa Natur Cynffig gan ddefnyddio pwerau prynu gorfodol  
(Tudalennau 82 – 92)
- 2.10 P-05-1083 Dylid gwarchod lesddeiliaid yng Nghymru rhag talu am waith adfer cladin  
(Tudalennau 93 – 102)
- 2.11 P-05-1088 Dylid sbarduno is-etholiad ar gyfer Aelodau sy'n dymuno newid eu hymlyniad o ran plaid  
(Tudalennau 103 – 109)
- 2.12 P-05-1089 Dylai Cymru arwain ar ddod â chyflogau'r GIG nôl i fod yn unol â chostau chwyddiant dros y 10 mlynedd diwethaf  
(Tudalennau 110 – 112)
- 2.13 P-05-1091 Dileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol  
(Tudalennau 113 – 120)

- 2.14 P-05-1093 Sefydlu Asiantaeth Gorfodi ym maes yr Amgylchedd a Bywyd  
Gwyllt yng Nghymru i ymdrin â throseddau amgylcheddol  
(Tudalennau 121 – 132)
- 2.15 P-05-1096 Dileu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o'r elfen orfodol o Fil  
Cwricwlwm 2020  
(Tudalennau 133 – 145)
- 2.16 P-05-1097 Dylid gwahardd cewyll adar hela  
(Tudalennau 146 – 157)
- 2.17 P-05-1115 Atal fferm solar anferth fydd yn dinistrio dolydd hynafol ger y  
Fenni  
(Tudalennau 158 – 163)

### **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

#### **Addysg**

- 3.1 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion  
(Tudalennau 164 – 166)

#### **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 3.2 P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder  
Personoliaeth Ffiniol  
(Tudalennau 167 – 171)
- 3.3 P-05-960 Dylid talu costau angladdau pob un o staff y GIG sy'n marw o  
Covid-19 neu gyda'r feirws  
(Tudalennau 172 – 175)

#### **Economi a Thrafnidiaeth**

- 3.4 P-05-943 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i  
sicrhau gwelliannau i'r A487 rhwng Gellilydan a Maentwrog  
(Tudalennau 176 – 179)

3.5 P-05-993 Gwnewch y sector manwerthu'n gwbl hygrych i bobl anabl

(Tudalennau 180 – 189)

## **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

3.6 P-05-895 Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

(Tudalennau 190 – 196)

## **Bydd y tair eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

3.7 P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)

(Tudalennau 197 – 198)

3.8 P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru

(Tudalen 199)

3.9 P-05-939 Gosod embargo ar unwaith ar drwyddedau bridio cŵn newydd, ar adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio nes bod y rheoliadau'n addas i'r diben a nes bod modd eu gorfodi

(Tudalennau 200 – 204)

## **Prif Weinidog**

3.10 P-05-996 Galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â symud, difrodi na dinistrio unrhyw symbolau hanesyddol yng Nghymru

(Tudalennau 205 – 207)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Eltem 5.

## 5 Paratoadau ar gyfer diwedd y 5ed Senedd

(Tudalennau 208 – 213)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Eitem 2.1

P-05-1067 Caniatáu i bob siop sy'n gwerthu eitemau dianghenraig barhau i fasnachu yn ystod y cyfnod cyfyngiadau 17 diwrnod

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Martin Obbard, ar ôl casglu cyfanswm o 56 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i 'chynnod atal byr' am 17 diwrnod, yn gwahardd siopau rhag gwerthu eitemau dianghenraig.

Gan fod adolygiad yn mynd rhagddo ynghylch gwerthu eitemau dianghenraig mewn archfarchnadoedd, dylid caniatáu i bob siop sy'n gwerthu eitemau dianghenraig agor os ydynt yn dymuno. Nid ydym yn cytuno bod hwn yn fesur call na synhwyrol, a bydd yn gwneud mwy o niwed nag o les.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Eitem 2.2

P-05-1068 Caniatáu cyfarfodydd ymbellhau cymdeithasol mewn gerddi preifat i ddilyn y wyddoniaeth ac osgoi teimlo'n ynysig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rachel Emma Ovett, ar ôl casglu cyfanswm o 273 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Cafodd llawer o bobl yng Nghymru a oedd yn gwarchod, neu mewn cartrefi gofal â mesurau llym a orfodwyd ar breswylwyr, eu gadael i deimlo'n ynysig am fisoedd ar gost enfawr i lesiant meddwl a chorfforol. Addawodd y llywodraeth na fyddai hyn yn digwydd eto. Mae cwrdd ag anwyliaid yn yr awyr agored mewn gardd breifat reoledig yn ffordd ddiogel i unrhyw un osgoi cael ei ynysu pan nad oes caniatâd i fynd i fannau cyhoeddus, neu pan mae pobl yn rhy ofnus i wneud hynny. Mae hyn yn golygu bod miloedd o bobl agored i niwed yn cael eu hynysu unwaith eto heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Byddai'r mwyafrif helaeth o ddinasyddion gofalus sy'n cydymffurfio yn cyfarfod mewn gerddi preifat heb dorri'r rheoliadau. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bu mwy o achosion o dorri amodau mewn cartrefi preifat nag mewn mannau cyhoeddus. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y rhai sy'n diystyr rheolau Covid yn ymddwyn yn well neu'n cydymffurfio'n well mewn mannau cyhoeddus yn hytrach na gerddi preifat. Mae'r feirws yn ymledu'n haws y tu mewn. Mae'r ddadl ynghylch mynd i mewn os caniateir cyfarfod mewn gerddi preifat yn ddiffygol, gan fod y llywodraeth yn caniatáu cyfarfod dan do beth bynnag.

Mae'r feirws yn ymledu'n haws mewn mannau lle mae'n rhaid i bobl symud o gwmpas a mynd a dod, e.e. tafarndai. Mae alcohol yn effeithio ar farn pobl felly efallai na fydd pobl yn gallu ymbellhau'n gymdeithasol yn effeithiol ar ôl yfed. Mae'n anodd rheoli mannau cyhoeddus, strydoedd a pharciau, gyda llawer o bobl yn mynd a dod i gyfeiriadau gwahanol, gan ei gwneud yn

anodd rheoli pellter, heb unrhyw fai personol, ond gellir rheoli mannau preifat.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru



Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Caerdydd  
CF99 1SN

[Seneddpetitions@senedd.wales](mailto:Seneddpetitions@senedd.wales)

13 Ionawr 2021

Annwyl Cadeirydd

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 6 Tachwedd am ddeiseb ynglŷn â chaniatâu i bobl gyfarfod gan ddilyn mesurau pellter cymdeithasol mewn gerddi preifat. Cyfeiria'r ddeiseb at ymweliadau â chartrefi gofal, unigolion sy'n cael eu gwarchod, yn ogystal â chynnulliadau cyffredinol mewn gerddi.

Caniateir i ymweliadau â chartrefi gofal gael eu cynnal o dan lefel rhybudd pedwar am resymau tosturiol, ond dylid eu cyfyngu i ymweliadau yn yr awyr agored, neu ymweliadau mewn podiau ymweld neu fannau caeedig tebyg. Bydd ymweliadau o'r fath yn cael eu hatal dros dro os ceir achosion yn y cartref.

Caniateir i ymweliadau dan do gael eu cynnal mewn cartrefi gofal mewn amgylchiadau eithriadol gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i ddiwedd oes, fel y gwnaed gydol y pandemig.

Cyfrifoldeb y darparwr unigol yn y pen draw yw penderfynu a ellir cynnal ymweliadau â chartrefi gofal, ac o dan ba amgylchiadau. Ym mhob achos, rhaid i'r darparwr weithredu asesiadau risg, mesurau cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch priodol cyn caniatâu i ymweliadau gael eu cynnal, a gofynnir i bobl gysylltu â nhw cyn teithio.

Gweler y ddolen ynghylch ymweliadau â chartrefi gofal <https://llyw.cymru/ymweliadau-chartrefi-gofal-canllawiau-i-ddarparwyr> a chanllawiau ynghylch lefelau rhybudd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: <https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-i-oedolion-a-phlant>

Cafodd y trefniadau i warchod unigolion eu argymhell rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Mae'r Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi diweddaru y canllawiau hyn i gefnogi pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol i ddiogelu eu hunain rhag dod i gysylliad â'r coronafeirws oherwydd bod Cymru yn awr ar lefel rhybudd 4. Y cyngor yn awr yw na ddylai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.


unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol fynd i'r gwaith na'r ysgol y tu allan i'r cartref.

Rydym yn gwybod bod cael eu hynysu am gyfnodau hir yn gallu bod yn niweidiol i iechyd meddwl ac iechyd corfforol unigolion, felly gall y rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol fod yn aelod o swigen gymorth o hyd, ar yr amod bod y rhagofalon priodol yn cael eu dilyn. Anogir yr unigolion hyn i barhau i fynd allan i wneud ymarfer corff a mynchyu apwyntiadau meddygol.

Mae pawb yng Nghymru yn ddarostyngedig i reoliadau sydd ar waith o dan lefel rhybudd pedwar ar hyn o bryd, ac felly rhaid iddynt aros gartref. Ni all pobl gyfarfod ag unrhyw un arall o dan do nac yn yr awyr agored yn gymdeithasol oni bai eu bod yn rhan o swigen gymorth neilltuol.

Mae'r coronafeirws yn feirws hynod heintus – mae'n ffynnu pan ddaw pobl i gysylltiad â'i gilydd. Mae'r amrywiolyn newydd yn y DU hyd yn oed yn fwy heintus. Er mwyn cadw ein gilydd yn ddiogel, mae angen inni leihau nifer y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw a'r amser yr ydym yn ei dreulio gyda nhw. Golyga hyn fod angen lleihau cysylltiad cymdeithasol cymaint â phosibl.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

## Eitem 2.3

P-05-1082 Gadewch i gorau ymarfer dan do os ydyn nhw'n cynhyrchu asesiad risg llawn i atal haint C-19

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jon Wilks, ar ôl casglu cyfanswm o 498 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae corau yng Nghymru yn cael eu hatal rhag ymarfer dan do oherwydd canllawiau cyfredol C-19 Llywodraeth Cymru, sy'n annog peidio â chanu dan do. Nid yw'r canllawiau'n ystyried camau y gall corau eu cymryd, megis gwisgo amddiffynwyr wyneb, cadw pellter, gwneud llai o sŵn wrth ganu, diheintio arwynebau a dwylo, ac awyru. Nid yw corau yn gallu parhau i ymarfer yn yr awyr agored yn ystod y gaeaf. Dylid newid y canllawiau i ganiatáu canu wedi'i drefnu dan do os gellir dyfeisio a gweithredu asesiad risg a chynllun.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae Côr Meibion y Bont-faen yn gôr llewyrchus a llwyddiannus y mae ei aelodaeth ar gynnydd, ac mae wedi bod yn ymarfer yn yr awyr agored yn unol â rheolau Llywodraeth Cymru. Mae rheolau cyfredol y Llywodraeth yn caniatáu i hyd at 15 o bobl gwrdd dan do, ond nid ar gyfer canu. Mae'n ymddangos bod y canllawiau hyn yn seiliedig ar arbrawf ymchwil cyfyngedig (<https://academic.oup.com/cid/advance-article/doi/10.1093/cid/ciaa1241/5908276>) a fesurodd ddefnynnau a anadlwyd allan wrth ganu. Nid oedd yr ymchwil wedi ystyried y camau synhwyrol y gellir eu cymryd i leihau risg, sef camau y gall côr y Bont-faen a chorau eraill eu cymryd.

Dangosodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Lund ym mis Medi 2020 (<https://www.sciencedaily.com/releases/2020/09/200908101621.htm>) fod mesurau atal yn peri i'r allyriadau gronynnau a gynhyrchir trwy ganu ostwng i'r un lefel â siarad yn normal.

Ni fydd corau fel côr y Bont-faen yn gallu parhau i ymarfer yn yr awyr agored yn ystod misoedd y gaeaf sydd i ddod; dylid caniatáu iddynt ymarfer dan do mewn grwpiau o 15 os ydyn nhw'n cymryd camau atal heintiau.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1082  
Ein cyf/Our ref DET/03338/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau

1 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 27 Tachwedd am y ddeiseb i ganiatáu aelodau corau i ganu mewn grwpiau yng Nghymru. O dan y rheoliadau coronafeirws newydd a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 9 Tachwedd, ni chaiff grwpiau o fwy na phymtheg o bobl ymgynnull ar unrhyw adeg ar gyfer gweithgareddau dan do.

Yn gynharach yr haf hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer dychwelyd i leoliadau a chyrchfannau diwylliant a threftadaeth. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, gofynnnon ni i Gyngor Celfyddydau Cymru weithio gyda'r sectorau diwylliant i ddatblygu canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnal rihrals a pherfformiadau a chyfranogi. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau a dylai holl gyrrff celf Cymru ystyried y canllawiau hynny'n ofalus. I'w gweld, ewch i <https://llyw.cymru/ymarfer-perfformio-chymryd-rhan-yn-y-celfyddydau-perfformio-canllawiau-ar-gyfer-dychwelyd-yn-0>. Dylech roi sylw arbennig i'r adran ar ganu.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**  
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 60**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## P-05-1101 Caniatáu i gefnogwyr fynychu digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dylan Llewelyn Morgan, ar ôl casglu cyfanswm o 105 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae cefnogwyr pêldroed a rygbi yn Lloegr bellach yn cael mynd i'r caeau chwarae i gefnogi eu clybiau, ond nid yw hyn yn cael ei ganiatáu yng Nghymru. Mae clybiau pêldroed Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam, ynghyd â'r clybiau rygbi yma yng Nghymru, yn ysu am gael gweld cefnogwyr yn dychwelyd. Mae'r clybiau'n wynebu trafferthion ariannol ac mae'r cefnogwyr yn ei chael hi'n anodd hefyd, gan gynnwys fi sydd ar goll heb gael mynd i wyliau gêm bêldroed. A wnewch chi ganiatáu i hyd at 2000 o gefnogwyr ddod i'r caeau chwarae yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr – mae mawr angen hyn.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1101  
Ein cyf/Our ref DET/03722/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

8 Ionawr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ynglŷn â deiseb P-05-1101 – caniatáu i gefnogwyr fynychu digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru.

O ran lleddfu cyfyngiadau, mae Llywodraeth Cymru bob amser yn ystyried hynny yng nghyd-destun yr amodau iechyd cyhoeddus. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau prawf ym mis Medi gan ddisgwyl y byddai'r gwersi a ddysgwyd, ynghyd â chyfres ehangach o ddigwyddiadau prawf, yn ein helpu, yn y pen draw, i gynllunio ar gyfer caniatáu i bobl wyllo digwyddiadau'n ddiogel unwaith eto. Ers hynny, mae'r digwyddiadau hynny wedi'u gohirio oherwydd y cynnydd diweddar a welwyd unwaith eto yn yr achosion o'r feirws.

Rydym yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys grŵp sy'n cynrychioli'r diwydiant digwyddiadau, i lywio'n penderfyniadau yngylch pryd y gallem lacio'r mesurau sy'n ymwneud â digwyddiadau a gwylwyr. Gan ddibynnu ar y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn y Flwyddyn Newydd, rydym yn gobeithio cynnal rhagor o ddigwyddiadau prawf yn nes at y gwanwyn. Dim ond pan fydd hynny'n ddiogel y caniateir digwyddiadau prawf o'r fath, a phan fyddwn yn gallu symud i haenau 1 a 2 o'r drefn rhybuddion.

Dim ond caniatáu i wylwyr fynd i ddigwyddiadau yn eu hardaloedd haenau 1 a 2 eu hunain y mae'r rheoliadau yn Lloegr. Fel y gwyddoch, mae llawer o ardaloedd yn Lloegr wedi newid bellach i haenau 3 a 4, lle na chaniateir unrhyw wylwyr, a hynny oherwydd bod nifer yr achosion o'r coronafeirws yn codi. Mae gan Gymru system iechyd cyhoeddus debyg ac rydym yn ein lefel rhybudd 4 ein hunain ar hyn o bryd, sydd, yn ei hanfod, yn golygu 'ar gartref'. Mae'n lefel 3 ni yn golygu bod gofyn i'r cyhoedd gael cyn lleied o gyswilt ag eraill â phosibl. Byddai caniatáu i wylwyr yng Nghymru ddychwelyd i leoliadau ar yr adeg dyngedfennol hon yn mynd yn groes i'r negeseuon pwysig hyn ac yn peryglu iechyd y cyhoedd.

Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae pob un o'r lefelau rhybudd yn ei olygu, am yr hyn a ganiateir, a pham a phryd y byddwn yn symud rhwng lefelau, i'w gweld [yma](#) ac [yma](#). Mae

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cwestiynau Cyffredin, lle gallwch ddod o hyd i gwestiynau ac atebion ynglŷn â'r rheoliadau, i'w gweld [yma](#) ac [yma](#).

Wrth ystyried cyfyngiadau, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud hynny ar sail y data a'r wyddoniaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i Gymru, ac ar sail y cyngor diweddaraf a gawn oddi wrth ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol ein hunain. Diben hynny yw cyfyngu ar nifer y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw, ac arafu trosglwyddiad y feirws. Drwy gyfrwng y rheolau hyn, rydym yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng pwysigrwydd lles meddyliol a chorfforol pobl, a phwysigrwydd ein heconomi, a'r angen i gadw pobl yn ddiogel ac i ddiogelu'r GIG.

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol iawn – mae'r feirws ym mhob un o'n cymunedau lleol ac mae'n cyflymu. Mae'n GIG o dan bwysau. Mae angen mesurau cryf i reoli'r feirws ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae angen i bawb helpu hefyd, nid yn unig drwy ddilyn y rheolau ond drwy wneud newidiadau bach i'w harferion a'u bywydau bob dydd a lleihau'r cyswllt rhwng ddiogelu a phobl eraill. Mae'r feirws hwn yn ffynnu ar gyswllt rhwng pobl – pryd bynnag y byddwn yn treulio amser gyda phobl eraill, neu'n agos atynt, mae perygl y byddwn naill ai'n dal neu'n trosglwyddo'r coronafeirws.

Er bod gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored yn fwy diogel, nid yw'n golygu nad oes unrhyw risg. Mae dal yn golygu bod yn rhaid i bobl adael eu cartrefi pan nad yw hynny'n hanfodol. Wrth iddi fynd yn oerach, ac yn fwy twyll a gwlyb, mae hynny'n creu gwell amodau ar gyfer y feirws. O dan y cyfyngiadau 'aros gartref' a fabwysiadwyd yng Nghymru, ac sy'n seiliedig ar gyngor arbenigol ar ymddygiad, dylai pobl deithio cyn lleied â phosibl. Mae pob eithriad i'r rheolau hyn, neu gonesiynau mewn un maes, yn gwanhau'r neges honno ac yn arwain at gamddealltwriaeth ymhliith y boblogaeth ac yn rhoi bywydau mewn perygl.

Rydym yn llwyr gydnabod yr ymdrechion a'r aberth enfawr y mae'r cyhoedd a busnesau yng Nghymru wedi'u gwneud i gadw Cymru yn ddiogel. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd drwy Gynadleddau i'r Wasg ar Covid19 dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa bresennol o ran y rheoliadau.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## Eitem 2.5

P-05-1102 Caniatáu o leiaf un rhiant neu warcheidwad i wylio gemau pêl-droed sydd wedi'u trefnu i blant

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan John Horn, ar ôl casglu cyfanswm o 52 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ar hyn o bryd caniateir i rieni wylio sesiynau hyfforddi pêl-droed i blant mewn amgylchedd awyr agored. Fodd bynnag, ni chaniateir i rieni wylio unrhyw gemau sydd wedi'u trefnu.

Mae hyn yn taro rhywun fel bod yn wrthgyferbyniol a gormodol pan fod mesurau diogelwch eraill ar gael, sy'n ddichonadwy. Er enghraifft, mae Lloegr yn caniatáu i rieni wylio o bellter o 3m i ffwrdd o ochr y cae. Byddai cyflwyno hynny'n opsiwn synhwyrol, ynghyd â gofyn bod pob oedolyn yn gwisgo gorchudd wyneb ac yn cadw at reol dau fetr.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1102  
Ein cyf/Our ref DET/03732/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders MS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

30 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ar ran y pwylgor deisebiadau ynghylch deiseb P-05-1102 Caniatáu i isafswm o un rhiant neu warchodwr wyllo gemau pêl-droed plant wedi'u trefnu.

Fel y gwyddoch, bu ymateb Llywodraeth Cymru i'r holl gyfyngiadau Covid yn ofalus, a byddant yn parhau i fod felly, yn seiliedig ar y data a'r wyddoniaeth ddiweddaraf i Gymru, ac yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf gan ein cynghorwyr gwyddonol a meddygol ein hunain. Mae hyn i gyd er mwyn cyfyngu ar y bobl rydyn ni'n dod i gysylltiad â hwy, a sicrhau nad yw y feirws yn lledaenu mor gyflym.

Trwy'r rheolau cenedlaethol, rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i les meddyliol a chorfforol pobl, gyda'r angen i gadw pobl yn ddiogel a gwarchod y GIG.

Er ein bod yn deall yn llawn bwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer i blant ac oedolion fel ei gilydd, mae'n rhaid inni hefyd dderbyn bod y feirws yn parhau i fod yn bresennol o fewn ein cymunedau, ac mae llawer iawn o bobl angen cymorth y gwasanaethau GIG. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â'n cyrff llywodraethu cenedlaethol drwy gydol y pandemig, y tro yma Chwaraeon Cymru a'r FAW. Y rheswm dros y penderfyniad i beidio â chaniatáu gwylwyr mewn gemau pêl-droed iau yw er mwyn cyfyngu y cyfleodd i gasglu ynghyd, a'r risgau i wirfoddolwyr orfodi y rheol 2 fetr. Er ein bod yn deall y byddai rhan fwyaf y rhieni yn parchu'r rheol, ni ellir gwarantu y byddai pawb yn gwneud hyn, ac nid yw hwn yn risg y gallwn ei gymryd ar hyn o bryd. Ni ddylai unrhyw oedolion sy'n bresennol yn ystod y gweithgareddau hyn, ond sydd ddim yn cymryd rhan yn uniongyrchol neu'n hwyluso'r gweithgareddau, aros yn yr ardal ble y mae'r gweithgarwch yn digwydd. Dylid cyfyngu ar gefnogwyr a gwylwyr gweithgareddau wedi'u trefnu i ddim ond y bobl hynny sy'n gorfol bod yn bresennol, er enghraift rhieni neu warchodwyr plant y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol am resymau iechyd a diogelu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch rheoliadau'r Coronafeirws yng Nghymru yn seiliedig ar y data gwyddonol a meddygol diweddaraf, a'r angen i warchod iechyd y cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol iawn – mae'r Coronafeirws yn bresennol ym mhob un o'n cymunedau ac mae'n cyflymu. Mae ein GIG dan bwysau. Rydym angen mesurau cadarn i reoli'r feirws ac i warchod iechyd y cyhoedd. Rydym angen i bawb helpu hefyd drwy nid yn unig ddilyn y rheolau ond drwy wneud newidiadau bychain i'w harferion a'u bywydau bob dydd a lleihau'r cysylltiad sydd gyda phobl eraill. Mae'r feirws hwn yn ffynnu ar gysylltiadau dynol – pryd bynnag y byddwn yn treulio amser gydag eraill mae perygl y byddwn naill ai'n dal neu yn trosglwyddo'r feirws.

Ers cyflwyno'r ddeiseb hon, mae'r sefyllfa wedi newid, fel a nodwyd gan y Prif Weinidog ar [19 Rhagfyr](#), ac o'r 20 Rhagfyr, mae Cymru ar gyfngiadau rhybudd lefel 4. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae pob lefel rhybudd yn ei olygu, beth a ganiateir, a pam a phryd y gallwn symud rhwng lefelau i'w weld [yma](#) ac [yma](#). Mae'r Cwestiynau Cyffredin a'r atebion ynghylch y rheoliadau i'w gweld [yma](#) ac [yma](#).

Mae'r cynllun haenau diwygiedig yn gosod pedwar lefel rhybudd, sy'n cyd-fynd â'r mesurau sydd angen inni eu sefydlu i reoli y feirws drwy fisoeedd anodd y gaeaf sydd o'n blaenau, ac i warchod iechyd pobl.

Mae hefyd yn pennu sut a phryd y bydd Cymru yn symud rhwng y lefelau rhybudd hyn. Mae mesurau Cymru gyfan wedi eu cynllunio i fod yn syml, teg ac mor glir â phosibl, a byddant yn rhoi mwy o sicrwydd i bobl a busnesau ynghylch pa gyfngiadau cyfreithiol fydd yn cael eu sefydlu, gan ddibynnu ar lefel y risg, gan eu helpu i gynllunio at y dyfodol.

Mae rheoliadau rhybudd lefel 4 yn datgan bod yn rhaid inni i gyd 'aros gartref' os nad oes gennych resymau hanfodol dros beidio. Ni fydd chwaraeon plant wedi'u trefnu yn cael eu caniatáu tra bod Cymru yn parhau ar y Lefel Rhybudd hwn. Nid yw gwneud gweithgareddau o'r fath yn yr awyr agored, er yn fwy diogel, heb eu risg, ac mae'n golygu bod yn rhaid i bobl adael eu cartrefi pan nad yw'n hanfodol. Wrth iddi ddod yn oerach, yn dywyllach ac yn wlypach, mae'r amodau ar gyfer y feirws yn gwella. Mae ymateb Cymru yn ystod y cyfngiadau 'aros gartref', sy'n seiliedig ar gyngor ymddygiad arbenigol, yn golygu y dylai pobl deithio cyn lleied â phosibl. Mae pob eithriad i'r rheolau neu'r consesiynau hyn mewn un maes yn gwanhau y neges honno, ac yn arwain at gamddealltwriaeth ymhliith y boblogaeth ac yn peryglu bywydau pobl.

Caiff Lefel y Rhybudd ei adolygu bob tair wythnos, ac os bydd Cymru yn symud i'r Rhybudd Lefel Tri is (Risg Uchel) yn dilyn yr adolygiad, bydd gweithgarwch chwaraeon o dan do ac yn yr awyr agored yn cael ei caniatáu, fodd bynnag, bydd angen trefnu'r rhain yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mesurau i leihau lledaeniad y feirws.

Rydym yn cydnabod yn llawn yr ymdrechion a'r aberth enfawr y mae'r cyhoedd a busnesau wedi ei wneud i gadw Cymru yn ddiogel ac arbed bywydau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu diweddaradau rheolaidd drwy gynadleddau i'r wasg Covid19 a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau nesaf.

Rwy'n gobeithio bod hyn o gymorth.

Yn gywir,

J. Elis-Thomas

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## P-05-1117 Rhowch y Brechlyn COVID i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Graham Bishop, ar ôl casglu cyfanswm o 10,879 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Nid yw swyddogion yr heddlu ar y rhestr flaenoriaeth i gael y brechlyn COVID-19, er eu bod mewn swyddi risg uchel.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae fy mab yn heddwlas a gafodd ei heintio â COVID wrth arrestio aelod o'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am 4 wythnos a phennwyd na fydd yn dychwelyd tan ddiwedd mis Rhagfyr. Trosglwyddodd y feirws i'w wraig oedd yn feichiog iawn, ac aeth hi yn ei thro i'r ward COVID yn yr ysbty. Bu'n rhaid iddi gael toriad Cesaraidd ar frys, a ganed yr efeilliaid ddeufis yn rhy gynnar. Dyw'r heddlu ddim yn unig yn peryglu eu hunain o ddydd i ddydd, maen nhw hefyd yn peryglu eu teuluoedd. At hynny, mae colli amser plismona'n gryn straen ar yr heddlu pan fod ei swyddogion adre'n sâl gyda COVID.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**P-05-1117 Give Police Officers the Covid Vaccination as a priority,  
Correspondence – Petitioner to Committee, 12.01.21**

**Petition: Give Police Officers the Covid Vaccination as a priority.**

***Police officers are not on the priority list to receive the Covid-19 vaccination, even though they are in a high risk job. My son is a police officer who contracted Covid whilst arresting a member of the public. At present he has been off work for 4 weeks and is signed off until the end of December. He passed the virus to his heavily pregnant wife who ended up in the Covid ward in hospital. She had to have an emergency CS with the twins born a month early. Not only are police at high risk to themselves every day, they also risk their families. Additionally the loss of policing time is a great strain on the force when officers are off sick with Covid.***

Since placing the above Petition on line, my son was signed off sick again with Long Covid until the 21<sup>st</sup> January 2021. Subject to him being fit to return then, he would have been away from his duties for over 10 weeks as he has not worked since 10<sup>th</sup> November. This situation is placing a huge strain on the police when officers are unfit due to Covid.

The signing of the Petition was rather slow to start with; however I understand from my son that the Police Federation came across the Petition and put a link to it on their Facebook Page, urging Offices to sign it. This Facebook Page is not a public site, so can only be viewed by the police employees. Over a couple of days there were up to 4000 signatures in a day following this link on the Police Federation's Facebook Page. I think it fair to assume this surge in signatures was primarily a result of police officers signing it as they are worried for their health and that of their families.

On the 5<sup>th</sup> January 2021, BBC Wales and Powys County Time websites drew attention to the Petition which was strongly supported by the Police. Extracts enclosed.

I am 74 and I would happily give up my immunisation to a police officer. I keep myself safe and am unlikely to contract Covid; unlike the police who have to deal with those who put the majority of the public at risk.

Graham Bishop

## **Extract from Powys County Times 5<sup>th</sup> January 2021**

Police and Crime Commissioner Dafydd Llywelyn is calling for the Welsh Government to include police officers on the Covid-19 Vaccination priority list so that they can be protected from the virus as a matter of urgency.

A petition calling for this to take place was recently set-up by a father of a police officer who fell ill following arresting a man who was infected by the virus.

More than 6,000 signatures already on the [\*\*petition\*\*](#), there is support from Unison, the NPCC along with the Police Federation of England and Wales, and now Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner.

Graham Bishop, who launched the petition, explained that his son passed on the virus to his heavily pregnant wife who ended up in a coronavirus ward in hospital. He said: "She had to have an emergency Caesarean section with the twins born a month early. Not only are police at high risk to themselves every day, they also risk their families. Additionally, the loss of policing time is a great strain on the force when officers are off sick with Covid."

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner Dafydd Llywelyn is calling on the Welsh Government to ensure that front line officers are vaccinated as a priority.

PCC Llywelyn said: "Like all other first responders and NHS staff, police officers risk their lives every day to keep the public safe, and are at a higher risk of contracting and transmitting Covid-19 due to their increased level of exposure with the general public and lack of regular testing.

"We have a situation at the Police Headquarters in Llangunnor, Carmarthen where we are providing resources to support the Welsh Ambulance Service to facilitate the vaccination process of their staff who are based at HQ, which is fantastic. But, I find it frustrating that while we are putting resources in place to carry out the vaccination process at HQ, it is still unclear, when the vaccination will become available to us to roll out to our officers.

"Police officers are essential workers, they are in face to face contact with the general public on a daily basis, dealing with difficult and complex situations, and as a result it is essential that they are included on the priority list like other first respondents.

"I'm now calling on the Welsh Government for some clarity on the roll-out schedule, and that police officers are given the same priority as other emergency services so that the public are confident that they are safe when they come in to contact with the Police."

Roger Webb, secretary of Dyfed Powys Police Federation, said officers are putting their health at risk as they go about their duties.

He said: "While I clearly understand the need for the most vulnerable people in our communities, frontline health service staff and those working in care homes to be right at the top of the list for the new vaccines, I also believe that police officers should be prioritised too.

"I would urge people to sign this petition so that this issue can be discussed in the Welsh Parliament."

<https://www.countytimes.co.uk/news/18987580.calls-police-included-coronavirus-vaccine-priority-list/>

## **Extract from BBC Wales Website 5<sup>th</sup> January 2021**

Police officers must be prioritised for the coronavirus vaccine as they "risk their safety" to enforce lockdown rules, a police federation has warned.

**Hundreds have been off work with Covid-19, including one whose heavily pregnant wife then became infected.**

NHS and careworkers are among those first in line for the vaccines, but police are not on the priority list.

The Welsh Government said it was following guidance to determine priority groups.

Other key workers, including teachers and police officers, are not under the priority category and have to wait to be immunised depending on the age group and risk category they fall into.

Those representing officers in Wales' four police forces said they were repeatedly putting their own safety and that of their loved ones at risk in order to protect the public.

Scores of officers have been spat at and coughed on while on duty, federation officials said.

In North Wales officers were called to break up an incident involving two women who were self isolating on Christmas Day, having to arrest one of them who was waiting for a test result.

Officers 'seriously ill' Mark Jones, of the North Wales Police Federation, said the officers had to decontaminate their uniforms afterwards.

"These officers finish their shifts and have to go home to their loved ones and families, having come into high risk of contracting Covid," he said.

He stressed that a number of officers had also ended up seriously ill in hospital after contracting the virus.

A petition, launched by the father of a South Wales Police officer who contracted Covid-19 while on duty, calls for the Welsh Government to immunise frontline officers.

Graham Bishop said his son passed on the virus to his heavily pregnant wife, who ended up on a Covid ward. He said: "She had to have an emergency caesarean section with the twins born a month early.

"Not only are police at high risk to themselves every day, they also risk their families. Additionally, the loss of policing time is a great strain on the force when officers are off sick with Covid."

Wales has been under the highest level of lockdown - level four - since before Christmas, with people being told to stay home and only go out for essential reasons.

But officers have been breaking up house parties, illegal gatherings and barring visitors trying to visit beauty spots across Wales.

Chief Constable of South Wales Police Jeremy Vaughan said the force was handing out a lot of fines for people blatantly breaching lockdown laws.

In December alone the force issued 500 fixed penalty notices, Mr Vaughan said.

"Every week I'm sending cards and letters to police officers who are getting spat at in the face by people who say that they've got Covid," he told BBC Radio Wales.

"Police officers are putting themselves in harms way."

'Not unfair prioritising'

Roger Webb, secretary of Dyfed Powys Police Federation, said even trying to stop people visiting beauty spots was a risk to officers' safety, let alone dealing with emergencies and volatile situations.

"It is not about unfairly prioritising police officers over everyone else, we understand the need for the most vulnerable and frontline health service staff to be right at the top of the list for the new vaccines," Mr Webb said.

"But the reality is that the police come into contact with every part of society, the good and the bad. "To not prioritise police officers is a mistake made in vain of protecting the public."

<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-55546072>

## P-05-1119 Blaenoriaethu athrawon, a staff ysgolion a gofal plant ar gyfer brechiadau COVID-19

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jonathan Môn Hughes, ar ôl casglu cyfanswm o 16,288 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Gan fod llawer o blant sy'n dal COVID-19 yn dangos dim symptomau, yn aml mae'r feirws yn lledaenu mewn ysgolion heb i unrhyw un wybod nes bod aelod o staff yn datblygu symptomau.

Bydd staff y GIG yn cael brechiad gan eu bod yn peryglu eu bywydau. Mae staff ysgolion a gofal plant hefyd yn peryglu eu bywydau ond nid ydynt cael eu blaenoriaethu ar gyfer brechiad.

### Gwybodaeth Ychwanegol

#### Ers mis Medi:

- mae mwy na 2,120 aelod o staff ysgolion wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19.
- mae mwy na 3,030 o ddisgyblion wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19.
- mae mwy na 1,570 o ysgolion wedi nodi o leiaf un achos o'r coronafeirws.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

**P-05-1119 Prioritise teachers, school and childcare staff for COVID-19 vaccination, Correspondence – Petitioner to Committee, 17.01.21**

Dyma wybodaeth i gefnogi fy neiseb:

This is a statement by UNICEF Executive Director Henrietta Fore:

15th December, 2020: “The COVID-19 pandemic has wreaked havoc on children’s education around the globe. Vaccinating teachers is a critical step towards putting it back on track.

“At their peak in late April 2020, nationwide school closures disrupted the learning of almost 90 per cent of students worldwide. While that number has dropped since, there continues to be an unsupported assumption that closing schools may slow the spread of the disease, despite increasing evidence that schools are not a main driver of community transmission. As a result, as cases are skyrocketing in many countries around the world, communities are again closing schools. As of 1 December, classrooms are closed for nearly 1 in 5 schoolchildren globally – or 320 million children.

“UNICEF is calling for teachers to be prioritized to receive the COVID-19 vaccine, once frontline health personnel and high-risk populations are vaccinated. This will help protect teachers from the virus, allow them to teach in person, and ultimately keep schools open.

“While decisions about vaccine allocation ultimately rest with governments, the consequences of extended missed or impaired education are steep, especially for the most marginalized. The longer children remain out of school, the less likely they are to return, and the more difficult it is for their parents to resume work.

“These are difficult decisions that force difficult tradeoffs. But what should not be difficult is the decision to do everything in our power to safeguard the future of the next generation. This begins by safeguarding those responsible for opening that future up for them.”

A statement like this from a lady of such power should instantly change the minds of world leaders. I do hope that the AMs see worth in this petition and this statement, but if not, I hope that Kirsty Williams stands up and fights for the workers of the sector she is responsible for.

I am appalled that Kirsty Williams is not fighting for the education and childcare workforce to be safe in their workplace by being prioritised for a vaccine. There is immense pressure on school and childcare staff at the

moment and the government seem to be fully aware of that, but we still aren't eligible to be prioritised for a vaccine.

I can speak more strongly on behalf of education staff as I myself am a teacher. My current concerns include:

- Having to teach in a new and different way online that many aren't used to
- Having to worry about catching a virus at my workplace that could not only be deadly to me, but to my family members
- Knowing a new curriculum is being rolled out from September 2022 and no postponement of that operation
- Knowing that the Education Minister is [stepping down at the election]
- Being aware that school children are significantly behind regarding where they should be in regards to skills development

There is one concern that can be addressed easily here. It can be resolved by prioritising teachers, school and childcare staff for the COVID-19 vaccination. Once we feel safe in our workplace, we can work on getting children back on track and we can prepare for the new curriculum.

Kirsty Williams thanks school staff in her videos online, but if she really was that grateful for our "hard work and dedication", she would stand up to safeguard the sector she is liable for.

Thank you.

## Eitem 2.8

P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argywng. Mae angen newid!

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Laura Williams, ar ôl casglu cyfanswm o 5,159 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ers i COVID-19 a'r cyfyngiadau symud ddod i'r amlwg, mae pobl wedi bod yn gaeth i'w haelwydydd fis ar ôl mis ac roedd llawer o'r bobl hynny'n dioddef cyn y cyfyngiadau symud, a thra'r oeddent ar waith. Roeddwn i'n rhywun a ddioddefodd yn sgil y cyfyngiadau symud ac rwy'n pryderu am nifer yr achosion o hunanladdiad yn fy ardal cyn y cyfyngiadau symud, a thra'r oeddent ar waith. Mae'r cyfyngiadau symud wedi gwaethygu iechyd meddwl pobl ac wedi gosod gwasanaethau iechyd meddwl o dan gryn straen – mae plant ifanc yn dioddef, ac mae oedolion a'r henoed yn dioddef hefyd o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.

Dylai Senedd Cymru fod yn cymryd camau ynghylch iechyd meddwl ac yn ariannu mwy o wasanaethau, mae pobl yn disgwyl am amser hir cyn gweld rhywun, neu cyn iddyn nhw gael help. Nid yw llawer o feddygon a nyrsys lleol wedi'u hyfforddi ym maes iechyd meddwl.

Cynyddodd canran y bobl wnaeth roi gwybod eu bod yn dioddef problemau iechyd meddwl o 23.3% yn 2017–2019 i 36.8% ym mis Ebrill 2020 (astudiaeth hydredol o aelwydydd y DU). Os nad yw hynny'n ei gwneud yn gwbl glir sut mae'r cyfyngiadau symud yn newid i'r eithaf y modd rydym yn byw ein bywydau ac yn ymladd y brwydrau sy'n ein wynebu'n ddyddiol, wn i ddim beth fydd yn gwneud.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Fy enw i yw Laura ac rwy'n dioddef nifer o faterion iechyd meddwl, sef Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD), Anhwylder Obsesiynol Cymhellol (OCD), iselder ysbryd, gorbryder ac anhwylder panig. Creais ddeiseb a oedd

hefyd yn nodi'r ffaith bod iechyd meddwl mewn cyfyngder mawr, ac mae gofyn cael cymorth ychwanegol ar ei gyfer. Llwyddodd y ddeiseb ac ers fy neiseb ddiwethaf, penderfynais mai'r ffordd orau i wireddu newid oedd dechrau gyda fi fy hun. O ganlyniad, gorffennais fy therapi PTSD yn llwyddiannus.

#### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

# P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwell a amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng.

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 12 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837

## Cyflwyniad

**Rhif y ddeiseb:** P-05-1078

**Teitl y ddeiseb:** Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a  
gwell a amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen  
newid!

**Testun y ddeiseb:** Ers i COVID-19 a'r cyfyngiadau symud ddod i'r amlwg, mae  
pobl wedi bod yn gaeth i'w haelwydydd fis ar ôl mis ac roedd llawer o'r bobl  
hynny'n dioddef cyn y cyfyngiadau symud, a thra'r oeddent ar waith.  
Roeddwn i'n rhywun a ddioddefodd yn sgil y cyfyngiadau symud ac rwy'n  
pryderu am nifer yr achosion o hunanladdiad yn fy ardal cyn y cyfyngiadau  
symud, a thra'r oeddent ar waith. Mae'r cyfyngiadau symud wedi gwaethyg  
iechyd meddwl pobl ac wedi gosod gwasanaethau iechyd meddwl o dan  
gryn straen - mae plant ifanc yn dioddef, ac mae oedolion a'r henoed yn  
dioddef hefyd o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.



Dylai Senedd Cymru fod yn cymryd camau ynghylch iechyd meddwl ac yn ariannu mwy o wasanaethau, mae pobl yn disgwyl am amser hir cyn gweld rhywun, neu cyn iddyn nhw gael help. Nid yw llawer o feddygon a nysys lleol wedi'u hyfforddi ym maes iechyd meddwl.

Cynyddodd canran y bobl wnaeth roi gwybod eu bod yn dioddef problemau iechyd meddwl o 23.3% yn 2017-2019 i 36.8% ym mis Ebrill 2020 (astudiaeth hydredol o aelwydydd y DU). Os nad yw hynny'n ei gwneud yn gwbl glir sut mae'r cyfyngiadau symud yn newid i'r eithaf y modd rydym yn byw ein bywydau ac yn ymladd y brwydrau sy'n ein wynebu'n ddyddiol, wn i ddim beth fydd yn gwneud.

## Cefndir

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog lechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 8 Hydref 2020 ar ôl iddi gael ei phenodi, eglurodd Eluned Morgan AS fod **gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u dynodi'n 'wasanaeth hanfodol'** yn ystod cyfnod cynnar pandemig y coronafeirws, gan nodi bod pobl wedi gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl pan oedd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae elusennau ym maes iechyd meddwl, fel Mind Cymru, yn dweud bod cael mynediad at gymorth o ran iechyd meddwl wedi bod yn anodd yn ystod y pandemig, gyda bron i un o bob pedwar yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor lechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd ar 4 Tachwedd 2020, nododd y Gweinidog lechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg nifer o flaenorriaethau ynghylch iechyd meddwl yn ystod y tair blynedd nesaf, gan gynnwys "**Gwelliannau pellach i ddarpariaeth argyfwng a thu allan i oriau** ar gyfer plant, oedolion oedran gweithio ac oedolion hŷn - gan symud i ddarpariaeth amlasantath gyffredin ledled Cymru gan gynnwys sicrhau cymorth a threfniadau trawsgludo priodol ar gyfer gofal mewn argyfwng".

Ar 9 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o'i chynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl 2019 i 2022 mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Mae cynllun diogelu'r gaeaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 2020 i 2021 gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, yn nodi'r blaenorriaethau ar

gyfer iechyd a gofal cymdeithasol hyd at fis Mawrth 2021, gan gynnwys yr amgen i barhau i ddynodi iechyd meddwl yn ‘wasanaeth hanfodol’.

Mae **datganiad ysgrifenedig** y Gweinidog yn amlinellu buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan nodi fel a ganlyn: “Rydym yn buddsoddi tua £700m bob blwyddyn yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG ac yn diogelu'r buddsoddiad hwnnw drwy neilltuo arian ar gyfer iechyd meddwl”.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22** ar 21 Rhagfyr 2020. Mae dogfen y gyllideb ddrafft yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi mewn iechyd meddwl a llesiant (gweler tudalen 28). Mae'r ddogfen yn nodi bod “**diogelu Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn 2021-22 yn parhau i fod yn flaenoriaeth**”. Yn ei chyllideb ddrafft, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi fel a ganlyn:

Can gydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar iechyd meddwl a lles llawer o bobl, rydym yn dyrannu £20m yn ychwanegol o fewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu'r cymorth ar draws ystod o feisydd. Byddwn yn cynyddu ein hymrwymiad o dan Cymru lachach ar gyfer Cronfa Gwella'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl drwy ddyblu ein cyllid o £7m i £14m. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o gymorth i wasanaethau anghlinigol ar y rheng flaen, cymorth argyfwng pob oed, a gwasanaethau asesu cof.

Mae'r ddogfen yn mynd ymlaen i nodi:

Ynghyd â'r cynnydd yng nghyllid lechyd Meddwl y GIG sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cyflogau a chwyddiant, mae hyn yn cyfateb i fwy na £42m o fuddsoddiad ychwanegol a fydd yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn 2021-22. Gellir gweld buddsoddiad pellach mewn iechyd meddwl ar draws y llywodraeth, yn unol â'n dull atal a diogelu iechyd meddwl a lles, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad at fannau gwyrdd, fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at lechyd Meddwl.

Ym mis Ionawr 2021, bydd dau o bwyllgorau'r Senedd - y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - yn craffu ar waith y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 o safbwyt iechyd meddwl a llesiant.

## Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 17 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd adroddiad ar ei Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys 15 o argymhellion i wella cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant i bobl yng Nghymru.

Ar 9 Hydref 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad, 'Cadernid meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach'. Mae'r adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol o ran iechyd meddwl. Ar 11 Rhagfyr, cyhoeddodd Gwasanaeth Ymchwil y Senedd erthygl, 'iechyd meddwl, pobl ifanc a'r pandemig', cyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 11 Rhagfyr 2020.

Hefyd, cyhoeddodd Senedd Ieuenctid Cymru ei hadroddiad, 'Gadewch i ni siarad am iechyd meddwl', ar 9 Hydref 2020.

Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon adroddiad ar ofal mewn argyfwng iechyd meddwl, sef 'iechyd meddwl yng nghyd-destun plismonia a dalfa'r heddlu'. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn ar 10 Rhagfyr 2019.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r ddeiseb hon eto.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddu na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-05-1078 Increase funding for mental health services and improve waiting times for people needing help in crisis. We need a change!, Correspondence – Petitioner to Committee, 12.01.21**

I have received an email to write about any comments I would like to add a few things towards my petition,

So since the first lockdown there has been a 50% increase in mental health as we are all aware there is a pandemic which is effecting a lot of things, I have recently since every lockdown since a massive increase in lockdown, in my area alone there has been about 30 suicides because of lockdowns.

I know we have to be put into lockdowns due to coronavirus but these lockdowns are not helping peoples mental health what so ever instead it's having the reverse effect and people who are not coping with lockdown are asking for help and being let down resulting in suicide.

I have seen a few stories and one in particular which caught my attention was a lady presented herself to a&e due to mental health and was turned away which resulted in her committing suicide on a bridge near the hospital, now this situation could of been a better outcome if she wasn't turned away from the hospital, a&e in uhw has no in mental health team which I've experienced this myself.

I presented myself to a&e regarding chest pains and because I was suffering disassociation as well when I went too have my blood pressure done in a side room in a&e I asked "is there anyone I can talk to regarding my mental health" which I got a reply of "there's no one here to talk to you about mental health we don't have them services up here" when I spoke to another nurse she said they don't have an in a&e mental health team they have to get a mental health team from outside the hospital to come in and see that said patient but because I wasn't presenting in a bad way they didn't do anything when I was discharged I was then asked after being discharged will I be going home and I'm not feeling suicidal which I replied with no I'm not and I will be going home, I then made a complaint with health board regarding this appalling experience I had and they suggested they would get someone from mental health services within uhw to contact me to discuss about mental health in a&e haven't received a phone call or anything else from the Health board either. Lockdown has effected a lot of people and I find services are appalling and are letting a lot of people down, everything is now online or filling out forms online just to see a doctor instead of ringing this causes delays in people receiving help.

Not everyone has access to internet so can't virtually have appointments or arrange appointments which then makes them feel isolated.

A lot of people are feeling isolated and peoples mental health is being effected more and more due to lockdown.

A change needs to happen within mental health services, we need more crisis teams up and running instead of going through 247 cav as I find cav isn't as helpful as crisis teams would

be, we need more services open and we need more mental health building opening to cover a bigger range of places as I find more and more services are being underfunded or closed down.

A change is needed whether big or small, something needs to be done mental health has been under funded for years and there's people like me who has been let down in the past and hasn't had much confidence in these services due to the government cutting funding. It's time the Welsh government made a difference and helped people all across wales to better access these services and get the right amount of support and help they need.

## Eitem 2.9

P-05-1079 Dylid diogelu Gwarchodfa Natur Cynffig gan ddefnyddio pwerau prynu gorfodol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Steven Preddy, ar ôl casglu cyfanswm o 8,435 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae un o'r gwarchodfeydd natur gorau yng Nghymru o dan fygythiad.

Mae angen rheoli'r cynefinoedd twyni tywod o bwysigrwydd rhyngwladol yng Nghynffig, neu fel arall byddant yn colli eu gwerth eithriadol. Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr oedd yn gwneud y gwaith hwn ers blynnyddoedd lawer, ond bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r gwaith oherwydd pwysau ariannol.

Nid yw perchennog y safle, sef corff cyfrinachol ac anatebol o'r enw Corfforaeth Cynffig, wedi bod yn barod i gytuno ar unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Efallai mai prynu gorfodol yw'r unig ddewis sydd ar ôl.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Caiff twyni tywod Cynffig eu cydnabod fel Ardal Cadwraeth Arbennig, sef dynodiad cadwraeth natur uchaf Ewrop.

Mae gan Gorfforaeth Cynffig statws elusennol, ac felly mae'n ofynnol iddo, yn ôl y gyfraith, wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd. Bu Cyfoeth Naturiol Cymru, sef asiantaeth cadwraeth natur gyhoeddus y wlad, yn ceisio trafod gyda'r gorfforaeth i sicrhau dyfodol y safle, ond mae'r trafodaethau hyn wedi cyrraedd pwynt amhosibl ei ddatrys. Nid fu'r Gorfforaeth yn barod i gytuno i unrhyw un o'r opsiynau a ginigwyd, er nid yw'n eglur pam. Mae'n bryd i'r penderfyniad gael ei gymryd allan o'u dwylo.

Mewn achosion eithriadol, pan fydd budd amlwg i'r cyhoedd, mae gan Lywodraeth Cymru y grym i brynu'n orfodol er mwyn amddiffyn safle fel Cynffig. Nid oes yn rhaid i orchymyn prynu gorfodol fod yn gostus: nid oes gwerth masnachol i'r safle, ac felly nid oes dim rheswm pam na all Corfforaeth Cynffig ei werthu i Lywodraeth Cymru am swm enwol.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru

# P-05-1079 Dylid diogelu Gwarchodfa Natur Cynffig gan ddefnyddio pwerau prynu gorfodol

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 26 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14837-3

Rhif y ddeiseb: P-05-1079

Teitl y ddeiseb: Dylid diogelu Gwarchodfa Natur Cynffig gan ddefnyddio pwerau prynu gorfodol

Geiriad y ddeiseb:

Mae un o'r gwarchodfeydd natur gorau yng Nghymru o dan fygythiad.

Mae angen rheoli'r cynefinoedd twyni tywod o bwysigrwydd rhyngwladol yng Nghynffig, neu fel arall byddant yn colli eu gwerth eithriadol. Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr oedd yn gwneud y gwaith hwn ers blynnyddoedd lawer, ond bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r gwaith oherwydd pwysau ariannol.

Nid yw perchen nog y safle, sef corff cyfrinachol ac anatebol o'r enw Corfforaeth Cynffig, wedi bod yn barod i gytuno ar unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Efallai mai prynu gorfodol yw'r unig ddewis sydd ar ôl.

Caiff twyni tywod Cynffig eu cydnabod fel Ardal Cadwraeth Arbennig, sef dynodiad cadwraeth natur mwyaf Ewrop.



Mae gan Gorfforaeth Cynffig statws elusennol, ac felly mae'n ofynnol iddo, yn ôl y gyfraith, wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd. Bu Cyfoeth Naturiol Cymru, sef asiantaeth cadwraeth natur cyhoeddus y wlad, yn ceisio trafod gyda'r gorfforaeth i sicrhau dyfodol y safle, ond mae'r trafodaethau hyn wedi cyrraedd pwynt amhosibl ei ddatrys. Nid yw'r Gorfforaeth wedi bod yn barod i gytuno i unrhyw un o'r opsiynau a ginigwyd, am resymau sy'n aneglur. Mae'n bryd i'r penderfyniad gael ei gymryd allan o'u dwylo nhw.

Mewn achosion eithriadol, pan fydd budd amlwg i'r cyhoedd, mae gan Lywodraeth Cymru y grym i brynu'n orfodol er mwyn amddiffyn safle fel Cynffig. Nid oes yn rhaid i orchymyn prynu gorfodol fod yn gostus: nid oes gwerth masnachol i'r safle, ac felly nid oes dim rheswm pam na all Corfforaeth Cynffig ei werthu i Lywodraeth Cymru am swm enwol.

## 1. Cefndir

Mae Gwarchodfa Natur Cynffig yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) dynodedig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi mai SoDdGA yw'r "safleoedd pwysicaf o safbwyt treftadaeth naturiol Cymru".

Mae'r twyni tywod ar y safle hwn hefyd wedi cael eu dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Mae gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn nodi:

Caiff yr ardal ei rheoli er mwyn sicrhau nad yw'r twyni'n cael eu llethu gan laswellt trwchus a choetir prysgoed gan golli bywyd gwylt pwysig ac amrywiol.

Mae hefyd yn nodi nad y cyngor sy'n rheoli'r safle bellach, ond Ymddiriedolaeth Gorfforaeth Cynffig (yr Ymddiriedolaeth), sef perchen nog y tir.

Mae'r deisebwyr yn dadlau bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn ddywedwst am ei chynlluniau ar gyfer rheoli'r safle yn y dyfodol, ac maent yn galw ar Lywodraeth Cymru i brynu'r tir yn orfodol.

### Rheolaeth y safle

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â chyfrifoldebau perchnogion a deiliaid SoDdGA.

Mae gan bob SoDdGA ddatganiad rheoli safle sy'n nodi pam mae'r safle'n arbennig a sut y dylid ei reoli. Yn 2003, cyhoeddodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar y pryd y datganiad rheoli safle (PDF, 24KB) ar gyfer Gwarchodfa Natur Cynffig. Mae'n nodi barn am y ffordd y dylid rheoli'r SoDdGA er mwyn cynnal ei ddiddordeb arbennig.

Mae datganiad a gyhoeddwyd ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn dweud bod yr Ymddiriedolaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal trafodaethau ynghylch y potensial i Gyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â phrydles hirdymor y safle, ond cytunwyd na allai hyn fynd yn ei flaen.

Ar 24 Hydref 2020 cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ddatganiad yn dweud:

To support the delivery of conservation work required at the reserve Kenfig Corporation Trust have decided to employ the services of a specialist who can manage the reserve with NRW providing help and support in recruiting the right candidate to the post.

NRW will work with the Trust to have a management agreement in place that will direct the working practices to support the rich variety of wildlife at Kenfig Nature Reserve.

Ar adeg paratoi'r papur briffio hwn roedd swydd warden yn cael ei hysbysebu ar gyfer y safle.

## Gorchmyntion Prynu Gorfodol

Mae Gorchmyntion Prynu Gorfodol yn caniatáu i gorff penodol, 'yr awdurdod caffael', sydd angen caffael tir neu eiddo, wneud hynny heb gydsyniad y perchenog. Rhaid i'r awdurdod caffael allu dangos bod cymryd y tir yn angenrheidiol a bod 'achos cymhellol er lles y cyhoedd'. Nid oes gan yr awdurdod caffael y pwerau i gaffael tir yn orfodol nes y bydd yr 'awdurdod cadarnhau' yn cymeradwyo'r Gorchymyn Prynu Gorfodol. Yng Nghymru, yr awdurdod cadarnhau yw Llywodraeth Cymru.

Mae pwerau prynu gorfodol yn bodoli mewn llawer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ac yn aml maent o natur arbenigol ar gyfer y pwrpas y mae awdurdod yn ceisio caffael tir. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a Llywodraeth Cymru, rai pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi

diweddar ei chanllawiau ar Orchmynion Prynus Gorfodol (PDF, 2MB) sy'n cynnwys tabl (tudalen 21) sy'n dangos y gwahanol bwerau sydd gan gyrrf megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio hysbysiad hwylus sy'n rhoi mwy o wybodaeth gefndirol am broses Gorchmynion Prynus Gorfodol.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Cadeirydd, dyddiedig 23 Rhagfyr 2020, mae Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, yn darparu mwy o wybodaeth am faterion rheoli tir ar y safle. Dywed y Gweinidog:

Mae'r risg fwyaf o ddiraddio i'r safle hwn yn debygol o ddeillio o borï amhriodol (gormod neu dim digon), felly mae rheoli'r safle yn gysylltiedig yn y bôn â rheoli'r hawliau pori.

Mae'r llythyr yn tynnu sylw at y ffaith na allai'r Ymddiriedolaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru ddod i benderfyniad ar fater hawliau pori, a dyna pam nad oeddent yn gallu cytuno ar brydles.

Fodd bynnag, fel y dywed y datganiad gan yr Ymddiriedolaeth y cyfeirir ato uchod, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu'r Ymddiriedolaeth i benodi warden ac yna bydd yn rhoi cytundeb rheoli blynnyddol i'r Ymddiriedolaeth i ymgymryd â gweithgareddau rheoli penodol yn gyfnewid am dâl.

Nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru:

... yn obeithiol ar hyn o bryd y bydd gennym ddatrysiaid erbyn y Flwyddyn Newydd, gan olygu nad oes angen ystyried prynu gorfodol ar y safle.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Hydref 2020, fe gyflwynodd Dai Lloyd AS gwestiwn ysgrifenedig yn gofyn pa gamau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y warchodfa natur yn cael ei rheoli. Cyfeiriodd ymateb y Gweinidog at y ffaith bod trafodaethau yn parhau rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru. Awgrymodd yr ymateb hefyd y byddai prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n digwydd yng Nghynffig yn helpu i sicrhau bod ei statws fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn cael ei gynnwl.

Hefyd ym mis Hydref 2020, cyflwynodd Suzy Davies AS **gwestiwn ysgrifenedig** yn gofyn a oes gan Lywodraeth Cymru “bwerau i orfodi tirfeddianwyr i ddiogelu tirweddau cenedlaethol arwyddocaol ac ymgysylltu â'r awdurdodau perthnasol”. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

Although the Welsh Government does not have direct powers to compel landowners to preserve such landscapes it does, through NRW, have powers with regard to the enforcement of the UK and EU designations afforded to the site.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddu na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1079  
Ein cyf/Our ref LG/02826/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2020 ynghylch y ddeiseb i warchod Gwarchodfa Natur Cynffig.

Yn anffodus, nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu dod i gytundeb gydag Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cenfig ynghylch prydles hirdymor gan nad oedd modd cytuno ar yr hawliau pori. Mae'r hawliau pori yn rhan o gyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth ac mae'n bosibl eu bod o werth ariannol sylweddol. Nid oedd yn fodlon newid ei safbwyt o ran hyn. Golygai hyn fod yr Ymddiriedolaeth wedi cadw hawliau unigryw ar benodi unrhyw borwr yn ogystal â chadw hawliau i arfer yr hawliau ei hun. Ni fyddai CNC felly wedi cael rheolaeth dros agwedd hollbwysig ar ofynion rheoli'r safle. Mae'r risg fwyaf o ddiraddio i'r safle hwn yn debygol o ddeillio o bori amhriodol (gormod neu dim digon), felly mae rheoli'r safle yn gysylltiedig yn y bôn â rheoli'r hawliau pori.

Yn dilyn trafodaeth bellach rhwng y ddwy ochr, mae Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig (KCT) wedi penderfynu rheoli'r safle ei hun gyda chefnogaeth CNC ac mae CNC wedi cyhoeddi'r datganiad a ganlyn yn y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar:

*"Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig i drafod pa drefniadau sydd angen eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod y nodweddion arbennig yn y Warchodfa yn cael eu diogelu.*

*I helpu i gyflawni'r gwaith cadwraeth angenrheidiol yn y Warchodfa, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu defnyddio gwasanaethau arbenigwr a fydd yn gallu rheoli'r Warchodfa, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cymorth a chefnogaeth i reciwtio'r ymgeisydd cywir ar gyfer y swydd.*

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth i sefydlu cytundeb rheoli a fydd yn llywio'r arferion gwaith i gefnogi'r amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwylt yng Ngwarchodfa Natur Cynfig."*

Fel perchnogion y safle, mae gan KCT hawl i'w reoli ei hunan ac mae'r sefyllfa bresennol yn awgrymu ei fod yn barod i wneud hynny o dan gytundeb â CNC a fydd sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen. Yn ei hanfod, bydd CNC yn helpu KCT i benodi warden ac yna cyhoeddi cytundeb rheoli blynnyddol i KCT i gyflawni gweithgareddau rheoli penodol yn gyfnewid am dâl.

Er bod gwaith trafod i'w wneud o hyd, a'r manylion yn dal i fod yn gyfrinachol yn fasnachol, rydym yn obeithiol ar hyn o bryd y bydd gennym ddatrysiaid erbyn y Flwyddyn Newydd, gan olygu nad oes angen ystyried prynu gorfodol ar y safle.

Yn Gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Udalen y pecyn 90

**To the Senedd Petitions Committee**

Thank you for scheduling a discussion at your forthcoming meeting on the petition to safeguard Kenfig Nature Reserve. This letter provides some additional background information and proposes a way forward that will address the issues raised by the petition.

**Kenfig National Nature Reserve**

The reserve is part of a wider estate under the custodianship of the Kenfig Corporation Trust (KCT), a private corporation registered with the Charities Commission. The committee has received several petitions over the years asking it to intervene to protect threatened sites, and petitioners will naturally wish to talk up the importance of those sites. With Kenfig we don't need to: it is in the top flight of nature reserves in Wales and its international importance for biodiversity is reflected in the number of conservation designations it has.

The nature of the habitats at Kenfig means that they require ongoing management to prevent the rare species they support from declining and disappearing, as has happened at other South Wales dune systems. The high level of recreational use of the site brings additional pressures. Bridgend council managed the reserve very successfully over many years, but the site is now in a state of limbo; even after protracted discussions between KCT and conservation bodies, no suitable arrangement for the future management of the site is yet in place.

**The petition**

The petition was conceived by a group of naturalists in south Wales. The co-ordinating group for the petition includes people working in nature conservation in professional and voluntary capacities. The petition has gained over 8,000 signatures, including over 5,000 from Wales. A large number of signatures are from the immediate environs of Kenfig, but all Welsh constituencies are represented. The international importance of Kenfig is reflected in the large number of signatures from other countries. The petition was still attracting over a hundred signatures a day with over three months to go until its end date, and so we are confident that it would have reached the new threshold of 10,000 signatures, which was introduced part-way through the signing period, but we agreed to close the petition early to allow the committee to consider it now rather than allowing it to run for the full six months.

**Compulsory Purchase**

The Welsh government has the powers to make a compulsory purchase order for a site such as this, given its strategic importance for nature conservation and the threats that it is facing. Although some local residents believe that the land cannot be sold, there are no legal restrictions which would prevent this. The low commercial value of the site means that this solution need not be cost-prohibitive.

### **Attempts to reach a settlement with Kenfig Corporation Trust**

Discussions have been underway for several years with Kenfig Corporation Trust to reach an agreement on how the site should be managed. Several options have been considered, including the involvement of the Wildlife Trusts and the RSPB, but all of these options were ruled out by KCT.

The latest proposal, that KCT itself manages the site, is of concern. KCT is a small village charity, run by voluntary trustees, with no skills or expertise in managing internationally important nature conservation sites, or with the many other complex logistical issues associated with managing a site of this nature. Although a job advertisement for a reserve manager has been issued, the proposed salary for this is well below that for comparable roles with similar responsibilities, and this poses the risk that no suitable candidates will apply, which could lead to Natural Resources Wales having to provide a considerable level of ongoing support. There will also be significant non-staff costs (e.g. for premises and equipment) which KCT may not have budgeted for.

In addition, during the period that this petition has been open, a number of individuals, including both those supportive of the petition and those who did not feel able to support it, raised concerns with us about the culture of KCT.

This letter is not the place to go into detail about those, but these concerns have prompted a group of local residents (unconnected with the petition) to make a formal request to the Charities Commission to undertake an investigation into the activities of the trust. As a petition co-ordinating group, we do not have any direct knowledge of the issues raised, but we feel the committee should be aware of this situation: the Charities Commission has a number of sanctions available to it, and some of these could have a significant impact on the ability of KCT to meet the commitments associated with any agreement it might reach for the management of the site.

While an agreement between KCT and Natural Resources Wales to manage the site should not automatically be ruled out as a solution, there are a number of issues which need to be resolved before we can have confidence in any proposal. Crucially, there is no such agreement yet, merely the intention to create one. And an agreement on paper will not be enough; there will need to be a high level of confidence in KCT's ability to deliver on the agreement such that the site will not become threatened again in a few years' time.

### **What we would like to happen next**

At this stage, we would like to propose to the committee that the following approach is taken:

- i) the committee keeps open the option of a debate on compulsory purchase, pending further information from the Welsh government on the position of the discussions with KCT, and
- ii) the committee requests that the Welsh government (or Natural Resources Wales) engages directly with the petition co-ordinating group with the aim of agreeing how the suitability of any proposed agreement with KCT should be evaluated.

Steven Preddy, on behalf of the Kenfig Campaign Co-ordinating Group

21 January 2021

## P-05-1083 Dylid gwarchod lesddeiliaid yng Nghymru rhag talu am waith adfer cladin

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Carl Tubbs, ar ôl casglu cyfanswm o 133 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae miloedd o lesddeiliaid fflatiau yng Nghymru yn wynebu biliau enfawr i dalu am waith adfer cladin a ffurflen EWS1 i gadarnhau nid yn unig nad oes cladin deunydd cyfansawdd alwminiwm (ACM, fel yn achos fel Grenfell) ond hefyd nad oes 'deunydd llosgadwy', ni waeth a oedd yr adeiladau wedi pasio'r rheoliadau o'r blaen ai peidio.

Dylai costau'r gwaith atgyweirio hwn gael eu talu gan y Llywodraeth a'r cyngorau gan fod llawer o lesddeiliaid yn methu eu fforddio.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Nid lesddeiliaid a ddylai fod yn gorfod talu am y gwaith atgyweirio hwn, gan fod y gwaith yn cyrraedd y safon gywir cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei chyngor newydd ym mis Ionawr 2020. Ni allwn werthu, nac ailforgeisio, ein fflatiau hyd nes y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau, a hynny oherwydd bod benthycwyr morgeisi yn pennu gwerth SERO iddynt, gan fod ein cartrefi bellach yn cael eu hystyried yn 'anniogel'.

Yn Lloegr, mae'r Gronfa Diogelwch Adeiladau yn cael ei defnyddio i helpu'r atgyweiriadau ar adeiladau dros 18 metr, ond mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r arian hwn ar gyfer COVID-19 yn lle. Dylid defnyddio arian Llywodraeth Cymru at yr un diben yng Nghymru ac ar gyfer pob adeilad sy'n fflatiau – gan nad yw'r cyngor newydd ar gyfer adeiladau dros 18 metr yn unig. Er bod y pandemig yn bwysig, mae angen i lesddeiliaid fod yn ddiogel yn eu cartrefi.

<https://www.gov.uk/government/news/new-1-billion-building-safety-fund-to-remove-dangerous-cladding-from-high-rise-buildings>

<https://medium.com/never-fear/the-grenfell-fire-that-continues-to-burn-7325ca87788c>

<https://www.walesonline.co.uk/news/politics/cardiff-bay-flats-victoria-wharf-18935612>

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# Deiseb: Dylid gwarchod lesddeiliaid yng Nghymru rhag talu am waith adfer cladin

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2020  
Petitions Committee | 26 January 2020

Cyfeirnod: RS20/14886-1

Rhif y ddeiseb: P-05-1083

Teitl y ddeiseb: Dylid gwarchod lesddeiliaid yng Nghymru rhag talu am waith adfer cladin

Geiriad y ddeiseb:

Mae miloedd o lesddeiliaid fflatiau yng Nghymru yn wynebu biliau enfawr i dalu am waith adfer cladin a ffurflen EWS1 i gadarnhau nid yn unig nad oes cladin deunydd cyfansawdd alwminiwm (ACM, fel yn achos fel Grenfell) ond hefyd nad oes 'deunydd llosgadwy', ni waeth a oedd yr adeiladau wedi pasio'r rheoliadau o'r blaen ai peidio.

Dylai costau'r gwaith atgyweirio hwn gael eu talu gan y Llywodraeth a'r cyngorau gan fod llawer o lesddeiliaid yn methu eu fforddio.

Rhagor o fanylion

Nid lesddeiliaid a ddylai fod yn gorfol talu am y gwaith atgyweirio hwn, gan fod y gwaith yn cyrraedd y safon gywir cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei chyngor newydd ym mis Ionawr 2020. Ni allwn werthu, nac ailforgeisio, ein fflatiau hyd nes y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau, a hynny oherwydd bod benthycwyr morgeisi yn pennu gwerth SERO iddynt, gan fod ein cartrefi bellach yn cael eu hystyried yn 'anniogel'.



Yn Lloegr, mae'r Gronfa Diogelwch Adeiladau yn cael ei defnyddio i helpu'r atgyweiriadau ar adeiladau dros 18 metr, ond mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r arian hwn ar gyfer COVID-19 yn lle. Dylid defnyddio arian Llywodraeth Cymru at yr un diben yng Nghymru ac ar gyfer pob adeilad sy'n fflatiau - gan nad yw'r cyngor newydd ar gyfer adeiladau dros 18 metr yn unig. Er bod y pandemig yn bwysig, mae angen i lesddeiliaid fod yn ddiogel yn eu cartrefi.

<https://www.gov.uk/government/news/new-1-billion-building-safety-fund-to-remove-dangerous-cladding-from-high-rise-buildings>

<https://medium.com/never-fear/the-grenfell-fire-that-continues-to-burn-7325ca87788c>

<https://www.walesonline.co.uk/news/politics/cardiff-bay-flats-victoria-wharf-18935612>

## 1. Cefndir

Yn dilyn y tân yn Nhîr Grenfell, mae Llywodraethau ledled y DU wedi cymryd camau i fynd i'r afael â diogelwch tân. Roedd y ffocws cychwynnol ar gladin ac adeiladau preswyl uchel iawn, ond mae cwmpas y gwaith hwn wedi ehangu'n sylweddol.

Mae'r ddeiseb hon yn canolbwytio'n benodol ar gladin, ffurflen ESW1 a chostau lesddeiliaid. Nid yw'r ffurflen dan sylw, sef ffurflen EWS1 ('External Wall Systems 1'), yn ofyniad statudol. Fe'i lluniwyd gan randdeiliaid (gan gynnwys benthyccwyr), a hynny dan arweiniad Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae **gwefan** RICS yn nodi y cafodd y ffurflen ei datblygu yn y modd a ganlyn: "The form was designed following Government advice regarding external wall systems on buildings above 18m and was created to ensure buildings over 18m tall could be assessed for safety to allow lenders to offer mortgages." Mae mwy o wybodaeth ar gael ar **wefan** RICS.

Mewn llythyr at y Cadeirydd, amlinellodd Llywodraeth Cymru y defnydd a wneir o ffurflen ESW1:

Er nad yw ffurflen EWS1 yn rhan o unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar hyn o bryd, fe'i defnyddir gan fenthycwyr i gael sicrwydd wrth fenthyca yn erbyn adeiladau preswyl uchel iawn. Gwyddom fod nifer o broblemau gyda'r broses hon.

Mae'r llythyr hefyd yn darparu rhai manylion am y trefniadau cyllido yn Lloegr.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae *Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019* yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010, a daethant i rym ar 29 Ionawr 2020. Maent yn gwahardd y defnydd o ddeunyddiau llosgadwy mewn waliau allanol rhai adeiladau sydd ag uchder o dros 18 metr.

Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *datganiad safbwyt* ar ddiogelwch adeiladau. Roedd y datganiad hwnnw'n nodi cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio rheoliadau a mynd i'r afael â diogelwch Tân mewn adeiladau uchel iawn.

Mewn *llythyr* at Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, dyddiedig 27 Tachwedd 2020, dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol:

Rwy wedi egluro dro ar ôl tro y dylai perchnogion a datblygwyr adeiladau wynebu eu cyfrifoldebau a thalu'r draul eu hunain am gywiro'r diffygion hyn, neu beryglu eu henw da proffesiynol.

Yn yr un llythyr, cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at *llythyr agored* y bu iddi ysgrifennu at ddatblygwyr ar 23 Hydref 2020. Yn y llythyr, nododd y Gweinidog:

Yn foesol, nid wyf o'r farn mai cyfrifoldeb y rheini sy'n byw yn yr adeiladau hyn yw cywiro'r problemau. Mae pobl a brynodd eu heiddo mewn ffydd, gan gredu eu bod yn bodloni'r holl safonau diogelwch perthnasol, yn eu cael eu hunain yn wynebu costau ariannol sylweddol er mwyn cywiro diffygion na ddylai byth fod wedi bod yno.

Mae rhai datblygwyr eisoes wedi dangos y gallant wneud y peth iawn. Mae camau eisoes wedi'u cymryd, ac yn dal i gael eu cymryd, i gywiro cladin ACM nad yw'n cydymffurfio â'r safonau. Fodd bynnag, rwy'n siomedig bod yna ddiffygion pellach wedi'u canfod yn rhai o'r adeiladau hyn, yn ogystal â'r cladin, a bod y problemau hyn yn cael eu gadael i'r

preswylwyr eu datrys. Credaf y dylai datblygwyr sydd yn amlwg wedi methu ag adeiladu i'r safonau gofynnol wynebu eu cyfrifoldeb a chywiro'r diffygion hyn. Heb esgus a heb oedi.

Gofynnodd y Gweinidog i ddatblygwyr nodi eu dulliau o ymgysylltu â thrigolion yn yr adeiladau yr effeithir arnynt.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd ar 21 Ionawr 2021, mewn perthynas â gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft, amlinellodd Llywodraeth Cymru yr anawsterau y mae lesddeiliaid yn eu hwynebu:

O dan gcontractau lesddaliad presennol, mae'n debygol mai ar y lesddeiliad y mae'r cyfrifoldeb i ariannu gwaith atgyweirio yng ngolwg y gyfraith. Ond heb gymorth ariannol, mae gwaith atgyweirio'n annhebygol o ddigwydd yn gyflym oherwydd byddai baich ariannol sylweddol ar lesddeiliaid, a allai arwain at fethdaliad neu galedi ariannol sylweddol i lawer. Yn ôl yr amcangyfrifon, byddai'r gost i lesddeiliaid rhwng £12k a £79k yn dibynnu ar ddifrifoldeb y diffygion. Mae'r broblem wedi'i dwysáu gan faterion cysylltiedig o ran morgeisi ac yswiriant sy'n atal benthyciadau yn erbyn eiddo â phroblemau cladin wedi'u nodi, sy'n gwneud i bobl deimlo'n gaeth yn eu cartref eu hunain.

Yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, dyrennir cyllid cyfalaf gwerth £32 miliwn ar gyfer mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch adeiladau. Dywed y Gyllideb ddrafft: "...bydd y buddsoddiad yn darparu sylfaen gadarn drwy unioni diffygion adeiladu, a helpu i osod systemau chwistrellu a systemau rhybudd gwacáu mewn nifer o adeiladau uchel iawn yr effeithir arnynt." Mae dogfen naratif y gyllideb ddrafft hefyd yn dweud:

Ein barn bendant o hyd yw na ddylai lesddeiliaid unigol orfod talu am ddiffygion o ran ansawdd adeiladau pan fo methiant amlwg wedi bod i adeiladu yn unol â'r safonau. Byddwn yn parhau i bwys o ddatblygwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau moesol ac unioni'r adeiladau hyn.

Fodd bynnag, pan fo'n briodol i'r Llywodraeth ddarparu cymorth i sicrhau diogelwch cartrefi pobl, rydym wedi ymrwymo i wneud hynny, ac i wneud hynny yn awr. Rydym yn cydnabod y pryderon iechyd meddwl sylweddol a'r potensial i bobl sy'n byw yn yr adeiladau hyn fod angen cymorth ariannol a chymorth ehangach ychwanegol. Felly, gan adeiladu ar y £10.6m yr ydym wedi'i ddarparu yn y flwyddyn ariannol gyfredol hon,

yn 2021-22 rydym yn darparu £32m (cyfalaf cyffredinol o £20m a chyfalaf trafodion ariannol o £12m) i helpu i fynd i'r afael â phryderon diogelwch adeiladau. O ystyried graddfa'r mater hwn, bydd y buddsoddiad yn darparu sylfaen gadarn drwy unioni diffygion adeiladu, a helpu i osod systemau chwistrellu a systemau rhybudd gwacáu mewn nifer o adeiladau uchel iawn yr effeithir arnynt.

Lansiodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar ddiogelwch adeiladau, sef *Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru*, ar 12 Ionawr 2021. Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos.

### 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Cytunodd y Senedd ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â *Bil Diogelwch Tân* Llywodraeth y DU ar 6 Hydref 2020. Mae'r darpariaethau y ceisiwyd cydsyniad yn eu cylch yn cynnwys eglurhad bod *Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* yn gymwys i waliau allanol, yn ogystal ag unrhyw rannau cyffredin, ac i'r drysau rhwng mangreoedd domestig a rhannau cyffredin.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Senedd wedi craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r mater o ddiogelwch Tân mewn adeiladau preswyl uchel iawn ers y Tân yn Nhîr Grenfell. Mae wedi cyhoeddi ~~dau adroddiad~~, ac mae'n parhau i ohebu â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Mae **blaenraglen waith** y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn nodi bod y Pwyllgor yn bwriadu craffu ar faterion yn ymwneud â diogelwch adeiladau yn nhymor y gwanwyn yn 2021.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref JJ/03050/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
[deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru)

8 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd ynghylch deiseb Carl Tubbs.

Mae hwn yn fater pwysig iawn ac rwyf wedi cael sawl cyfarfod â phreswylwyr adeiladau â diffygion diogelwch. Rwyf hefyd wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth oddi wrth breswylwyr yn rhannu effaith ariannol ac emosiynol hyn arnynt. Credaf yn gryf y dylai pobl deimlo'n ddiogel ar eu cartrefi a dyna pam mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, i sicrhau bod mesurau diogelu rhag Tân yn cael eu cyflwyno ar unwaith. Gwn nad yw hyn yn datrys y mater hynod gymhleth hwn ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddod o hyd i ffordd ymlaen sy'n iawn i bobl Cymru.

Rwyf wedi datgan droeon y dylai perchnogion adeiladau a datblygwyr ysgwyddo eu cyfrifoldebau ac unioni'r diffygion hyn, allan o'u pocedi eu hunain, neu wynebu peryglu eu henw proffesiynol da. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn glir nad yw'n credu y dylai lesddeiliaid orfod talu i unioni problemau sy'n deillio o fethiant i adeiladu i safonau ansawdd priodol neu achosion sy'n torri rheoliadau adeiladu; nid yw ychwaith yn meddwl mai trethdalwyr Cymru ddylai wneud hynny.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid i dynnu cladin anniofel o adeiladau preswyl a oedd yn uwch na 18 metr, ac mae wedi creu dau gynllun grant mewn perthynas â Diogelwch Adeiladau. Cyhoeddwyd y grant ar gyfer cladin deunydd cyfansawdd alwminiwm ym mis Gorffennaf 2019. Bydd yr arian yn talu costau cyfalaf tynnau cladin deunydd cyfansawdd alwminiwm nad yw'n cydymffurfio ac nad yw'n ddiogel, gan osod deunydd priodol yn ei le, ar adeiladau preswyl uchel iawn. Nodwyd 456 o adeiladau yn Lloegr oedd â'r math hwn o gladin. Neilltuwyd cyfanswm o £600m ar gyfer y gronfa hon (£200m ar gyfer y sector preifat a £400m ar gyfer y sector cyhoeddus).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 100

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ddiweddar, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel yr oedd ar ddiwedd mis Ebrill 2020, fod y Llywodraeth wedi talu £1.4m i'r sector preifat a £133m i'r sector cyhoeddus.<sup>1</sup> Ni roddwyd unrhyw gyllid canlyniadol i Lywodraeth Cymru.

Diben yr ail gronfa yw gwneud gwaith adfer ar gladin nad yw'n ddeunydd cyfansawdd alwminiwm ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Neilltuwyd cyfanswm o £1bn ar gyfer y gronfa hon. Fel yr oedd ar 17 Rhagfyr 2020, cafwyd cyfanswm o 2820 o geisiadau i gofrestru â'r gronfa, ac arweiniodd 294 o'r rhain at gais am gyllid.<sup>2</sup> Er i Lywodraeth Cymru dderbyn peth cyllid canlyniadol o'r gronfa hon, ar y pryd roedd Gweinidogion Cymru yn gorfol gwneud penderfyniadau anodd iawn yng hylch sut y dylid gwario arian yng Nghymru i ymateb i bandemig COVID-19.<sup>3</sup> Parhawn yn ymrwymedig i ddarparu cymorth ariannol er mwyn helpu i ariannu gwaith adfer mewn ffordd sy'n deg i lesddeiliaid a threthdalwyr.

Rwyf nawr mewn sefyllfa i ystyried sut y gallai unrhyw gyllid weithio a pha ddiffygion y gallai cyllid ymdrin â nhw, ac yn ddiweddar cyhoeddais ddatganiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cyllid ac yn nodi'r camau nesaf <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyllid-diogelu-adeiladau-ying-nghymru>.

Mae hwn yn fater cymhleth a'r cymhlethdod hwn sy'n rheoli pa mor gyflym y gellir bwrw'r maen i'r wal; nid yw'n arwydd nad oes ymrwymiad i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

O ran y prisiadau dim a nodir yng nghefndir y ddeiseb, mae hyn yn cyfeirio at broses EWS1 a'r materion sydd wedi codi yn ei chylch. Nid yw ffurflen EWS1 yn un o reoliadau Llywodraeth Cymru, ond fe'i lluniwyd yn dilyn cyngor Llywodraeth y DU yng hylch systemau waliau allanol er mwyn sicrhau bod adeiladau dros 18m o uchder yn gallu cael asesiad diogelwch er mwyn galluogi benthycwyr i gynnig morgeisi. Diben y broses yw codi ymwybyddiaeth o elfennau sy'n hanfodol o ran diogelwch i adeilad uchel iawn a pheidio â chreu system lle mae'n anodd gwerthu, prynu, neu symud.

Er nad yw ffurflen EWS1 yn rhan o unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar hyn o bryd, fe'i defnyddir gan fenthycwyr i gael sicrwydd wrth fenthyca yn erbyn adeiladau preswyl uchel iawn. Gwyddom fod nifer o broblemau gyda'r broses hon. Mae a wnelo hyn yn bennaf â rhoi gwybodaeth a sicrwydd i gyrff ariannol er mwyn llywio penderfyniadau benthyca, ac fel y cyfryw mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU arwain wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Bu rhai datblygiadau diweddar sy'n ceisio mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad oes angen ffurflen EWS1 ar berchnogion fflatiau mewn adeiladau heb gladin i werthu neu ail-forgeisio eu heiddo. Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) yn gweithio gyda benthycwyr, priswyr a chyrff diogelwch tân i ddatblygu cyngor newydd i syrfewyr er mwyn annog dull mwy cymesur o asesu adeiladau, a sicrhau bod unrhyw ymchwiliadau ychwanegol yn canolbwytio ar yr adeiladau sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Hefyd, darperir cyllid i hyfforddi mwy o aseswyr i fynd i'r afael â phroblemau capasiti, fel bod mwy o aseswyr cymwysedig ar gael ar gyfer adeiladau lle mae angen ffurflen EWS1.

<sup>1</sup> <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Investigation-into-remediating-dangerous-cladding-on-high-rise-buildings.pdf>

<sup>2</sup>

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/945445/BSF\\_Data\\_Release\\_171220\\_Final.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/945445/BSF_Data_Release_171220_Final.pdf)

<sup>3</sup> Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyllid canlyniadol yn cyfateb i £58.873m mewn cyfalaf a £1.177m mewn refeniw. Nid yw arian canlyniadol o Gyllideb y DU yn cael ei neilltuo i'w wario at yr un diben yng Nghymru. Unwaith y daw'r arian canlyniadol i law, Gweinidogion Cymru fydd yn parhawys i'r gosod i wario.

Er bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd, rydym yn ymwybodol bod y broses yn perni rhai problemau o hyd ac rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar Gymru yn cael eu deall ac yr eir i'r afael â nhw.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am broses EWS drwy'r dolenni canlynol ar wefan RICS:

<https://www.rics.org/uk/news-insight/latest-news/fire-safety/new-industry-wide-process-agreed-for-valuation-of-high-rise-buildings/>

Cwestiynau ac Atebion ynghylch Cladin - <https://www.rics.org/uk/news-insight/latest-news/fire-safety/cladding-qa/>

O ran gwaith a wneir yn y tymor hwy i ddiogelu lesddeiliaid yn fwy, o safbwyt diogelwch adeiladau, rydym yn cyflawni rhaglen waith fawr i ddiwygio ein dull o ddiogelu adeiladau'n sylweddol, er mwyn atal problemau fel y rhain rhag codi yn y dyfodol. Yn yr haf gwnaethom gyhoeddi Datganiad Sefyllfa yn nodi cynigion ar gyfer cyfundrefn diogelwch adeiladau newydd y mae diogelwch a llesiant preswylwyr yn ganolog iddi, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Byddwn yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer cyfundrefn newydd arfaethedig mewn Papur Gwyn ar 12 Ionawr. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, rhanddeiliaid ac, yn hanfodol, breswylwyr sydd â phrofiad go iawn o'r sefyllfa, er mwyn sicrhau bod eu safbwytiau yn llywio'r gwaith pwysig hwn wrth iddo fynd rhagddo.

Y tu hwnt i ddiogelwch adeiladau, rwyf hefyd yn ymrwymedig i wneud lesddaliadau yn decach. Mae swyddogion wedi bod yn casglu dystiolaeth o'r materion a'r opsiynau o ran newid, sy'n cynnwys yr [adroddiad gan y grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol ar gyfer Diwygio Lesddaliadau Preswyl](#), yn ogystal ag ymchwil i'r materion sy'n ymwneud â lesddaliadau yng Nghymru, y bwriedir ei chyhoeddi yn ddiweddarach y tymor hwn. Ynghyd ag [adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio lesddaliadau](#), bydd hyn yn rhoi sail dystiolaeth gref inni ystyried pa newidiadau sydd eu hangen.

Yn sgil yr ymateb i bandemig COVID-19, ac ymdrin ag Ymadael â'r UE, nid oes modd cyflwyno deddfwriaeth i ddeddfu'r argymhellion yn adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Gallaf nodi i ba gyfeiriad yr hoffwn fynd er mwyn ymdrin â'r materion hyn, gan gynnwys defnyddio'r mesurau deddfwriaethol sydd ar gael, a bwriadaf wneud hynny cyn bo hir.

Gobeithio bod y wybodaeth hon o fudd i chi ac aelodau'r pwylgor drwy roi trosolwg o'r camau sylweddol a gymerir i ddatrys y materion hyn.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

P-05-1088 Dylid sbarduno is-etholiad ar gyfer Aelodau sy'n dymuno newid eu hymlyniad o ran plaid

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Bleddyng Rhys Williams, ar ôl casglu cyfanswm o 372 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Yn nhymor diweddaraf y Senedd, mae nifer fawr o Aelodau o'r Senedd wedi newid eu hymlyniad gwleidyddol. Mae hon yn ffordd annemocrataidd i Aelodau ddatblygu eu gyrfaoedd gwleidyddol eu hunain, yn erbyn y pleidiau y cawsant eu hethol i'w cynrychioli. Pan fydd unrhyw Aelod yn dymuno newid ei ymlyniad gwleidyddol, dylid mynd â'r mater at bobl ei etholaeth. Nid democratiaeth yw hyn, a gall arwain at gyflwyno syniadau / pleidiau peryglus i'r Senedd.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dyffryn Clwyd
- Gogledd Cymru

# P05-1088: Trigger by-election for Members wishing to change party affiliation

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 26 January 2020

Reference: RS20/14886

**Petition Number:** P-05-1088

**Petition title:** Trigger by-election for Members wishing to change party affiliation

**Text of petition:** In the most recent term of the Senedd, a large number of MSs have changed their political affiliation. This is an undemocratic way for members to further their own political careers, against the parties they were elected to represent. When any member wishes to change their political affiliation, this should be taken to the people of their constituency. This isn't democracy, and can lead to dangerous ideas/parties being introduced to the Senedd.

## 1. Background

The [Government of Wales Act 2006](#), as amended by the Wales Act 2017, gives the Senedd power to make provisions about Senedd and local government elections. The Senedd's [Standing Orders](#) make provision about political groups. Changes to the Government of Wales Act would require primary legislation, while changes to Standing Orders would require two-thirds of Members voting to vote in favour.



## 1.1. Political groups

Section 24(5) of the Government of Wales Act 2006 requires the Senedd to make provision in Standing Orders for the determination of whether any Member belongs to a political group, and if so, to which political group.

Standing Orders set out that:

1.3 For the purposes of the Act, a political group is:

- (i) a group of Members belonging to the same registered political party having at least three Members in the Senedd; or
- (ii) three or more Members who, not being members of a registered political party included in Standing Order 1.3(i), have notified the Presiding Officer of their wish to be regarded as a political group.

1.4 The Presiding Officer must decide any question as to whether any Member belongs to a political group or as to which political group he or she belongs.

Members who are not in political groups may form political groupings for the purpose of Business Committee (SO11.3).

## 1.2. Disqualification

Section 16 and schedule 1A of the Government of Wales Act set out rules for when a person is disqualified from being a Member of the Senedd. This includes being under 18, not meeting citizenship requirements, or being sentenced to imprisonment. It does not include changes of political affiliation.

If a Member of the Senedd is disqualified, that person ceases to be a Member and their seat becomes vacant (section 18). For constituency vacancies, by-elections are held (section 10). If a Member of the Senedd vacating a regional list seat was elected from a party list, the Member who fills the seat must be from that list (section 11).

# 2. Welsh Parliament action

Since 1999, a number of Members have voluntarily changed their membership of political parties, groups or both. Up to the end of the fourth Senedd, three

Members changed their group or party. During the course of the fifth Senedd to date, ten Members have changed group or party, some more than once.

## 2.1. Senedd Commission

The Llywydd responded to this petition on 8 January. She confirmed that the Senedd Commission does not have a formal position on this matter and that any new legislation would be for the Senedd to consider.

## 2.2. Business Committee

On 20 May 2019, Mick Antoniw MS wrote to the Llywydd on behalf of a group of Members, proposing to amend Standing Orders to provide that any regional Member would only be able to be a formal member of the political group in the name of the party to which they were elected.

On 4 June 2019, Business Committee decided not to take forward the proposed change, but to review the relevant Standing Orders in time for the Sixth Senedd. Business Managers noted concerns about the ‘unprecedented fluidity of group membership.’

Business Committee considered the issue further on 8 December 2020 and agreed to seek views from their political groups.

## 2.3. Petitions Committee

On 9 July 2019, the Petitions Committee considered a petition to ‘stop regional AMs elected to represent specific parties from defecting’ (P-05-887). The petition proposed that if a Member elected from the regional list decided to change their political affiliation, the next candidate from the list should replace them. It proposed that the Senedd and Elections (Wales) Bill should be amended to this effect. The petition gathered 1301 signatures.

In a letter to the Chair of the Petitions Committee on 13 June 2019, the Llywydd confirmed the Commission did not plan to amend the Bill to this effect. The Committee closed the petition on 25 February 2020.

## 3. UK and international practice

### 3.1. UK

Members of the [House of Commons](#) cannot be disqualified in the same way as Members of the Senedd. However, under the [Recall of MPs Act 2015](#), the Speaker can give notice to the returning officer for a constituency to open a recall petition for an MP if they have been:

- sentenced to imprisonment;
- suspended after a Standards Committee report; or
- convicted of providing false information in support of an expenses claim.

For a petition to succeed, it must be signed by 10% of registered voters in the constituency.

In 2020, Anthony Mangnall MP (Conservative) introduced the [Recall of MPs \(Change of Party Affiliation\) Bill 2019-21](#). This aims 'to enable the recall of Members of the House of Commons who voluntarily change their political party affiliation'. The Bill was proposed under the 'ten-minute rule' for Private Members' Bills.

### 3.2. International

Some countries impose penalties on elected representatives who change party, including disqualification. Notably:

- In New Zealand, the [Electoral \(Integrity\) Amendment Act 2018](#) provides for a Member to vacate their seat if they choose to give notice to the Speaker that they are leaving the party for which they were elected. It also allows a vacancy to be created if the party leader gives notice that they believe the Member's actions have distorted the proportionality of party representation determined at the previous election.
- The [tenth schedule to the Indian Constitution](#) (1985) provides that a Member of Parliament or a state legislature is disqualified if they have voluntarily given up membership of their party.

Every effort is made to ensure that the information contained in this briefing is correct at the time of publication. Readers should be aware that these briefings are not necessarily updated or otherwise amended to reflect subsequent changes.

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

8 Ionawr 2021

Annwyl Gadeirydd

**Deiseb P-05-1088: Dylid sbarduno is-etholiad ar gyfer Aelodau sy'n dymuno newid eu hymlyniad o ran plaid**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr 2020.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn i benderfyniad Aelod i newid ei ymlyniad o ran plaid sbarduno is-etholiad. Mater i'r Senedd, yn hytrach na Chomisiwn y Senedd, yw hyn yn bennaf.

Mae nifer o lwybrau i'w cymryd er mwyn gwneud newid o'r fath. Byddai angen i'r Llywodraeth, un o bwylgorau'r Senedd, Aelod unigol neu Gomisiwn y Senedd gyflwyno Bil (deddf ddrafft) gyflwyno newid o'r fath.

Cyflwynodd Comisiwn y Senedd Ddeddf Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru) a oedd, ymysg pethau eraill, yn ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 mlwydd oed. Roedd hyn yn dilyn adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol a oedd yn cyngori ac yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn. Fodd bynnag, nid oedd y ddeddfwriaeth hon yn ymdrin yn benodol â newid ymlyniad wrth blaidd, ac ni wnaed dim newidiadau i'r ddeddfwriaeth i gynnwys y materion hyn.

Mae'n werth nodi, fel y nodir yn adroddiad y Panel Arbenigol, fod y system ar gyfer llenwi seddau gwag yn wahanol yn achos Aelodau Rhanbarthol ac Aelodau Etholaeth.

Nid oes gan Gomisiwn y Senedd unrhyw safbwyt ffurfiol ar y pwnc yma. Yn ogystal, fe fyddai angen i unrhyw gynnig i gyflwyno Bil ar y mater yma gymryd mewn i ystyriaeth cwestiynau mabad.

Hyderaf fod hyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i allu ymateb i'r deisebydd.

Cofion cynnes,

**Elin Jones AS**

Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Sulafa.Thomas@senedd.cymru  
 0300 200 6227

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Sulafa.Thomas@senedd.wales  
 0300 200 6227

Tudalen y pecyn 109

## Eitem 2.12

P-05-1089 Dylai Cymru arwain ar ddod â chyflogau'r GIG nôl i fod yn unol â chostau chwyddiant dros y 10 mlynedd diwethaf

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dyfan Roberts, ar ôl casglu cyfanswm o 190 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ers mis Ebrill 2010, mae cyflogau rhai aelodau o staff y GIG wedi gostwng cymaint â 20.51% yn unol â chwyddiant.

Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru drafod taro bargin newydd ar gyflogau a fydd yn digwydd yn 2021 a lleihau'n sylweddol neu ddileu'r golled y mae gweithwyr rheng flaen wedi'i dioddef dros y 10 mlynedd diwethaf.

Y tro diwethaf i ni gael codiad cyflog, roedd yn efelychiad o fargen San Steffan! Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru gymryd y camau cyntaf a rhoi'r fargen y mae'r GIG yn ei haeddu.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1089  
Ein cyf/Our ref VG/09363/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd am ddeiseb ar gyfer sicrhau bod cyflogau'r GIG yn gyson â'r lefel chwyddiant.

Rwy'n cydnabod yr heriau a'r pwysau anferth sydd ar holl aelodau ein gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ymroddedig yma yng Nghymru, a hynny drwy gydol yr amser, ond yn enwedig yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Penderfyniad gan Lywodraeth y DU oedd gweithredu polisi cyni yn 2010 mewn ymateb i'r argyfwng ariannol, gan rewi cyflogau'r sector cyhoeddus. Gan fod Lywodraeth y DU wedi gweithredu yn y modd hwn, ni chawsom ni, fel Llywodraeth Cymru, unrhyw gyllid canlyniadol i dalu am godiadau cyflog, o dan fformiwla Barnet. O ganlyniad, ni fyddai wedi bod yn opsiwn ariannol ymarferol i gyllido cynnydd mor fawr heb gael cyllid canolog gan Lywodraeth y DU.

Yn 2018, cafodd y cytundeb tair blynedd presennol ar gyfer staff yr agenda newid yn y GIG, ei wneud mewn partneriaeth â'r cyflogwyr a'r undebau llafur. Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys codiadau cyflog ar gyfer cyfnod o dair blynedd, cyflogau cychwynnol uwch, cael gwared ar bwyntiau cyflog sy'n gorgyffwrdd, a chyflwyno graddfeydd cyflog byrrach. O ran y staff y mae gweithgarwch y corff adolygu cyflogau meddygon a deintyddion yn berthnasol iddynt, gweithredais ei argymhelliaid eleni'n llawn drwy weithredu codiad cyflog o 2.8%.

Wrth i'r cytundeb cyflogau tair blynedd ddod i ben, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chynrychiolwyr yr undebau a chyflogwyr y GIG, drwy broses y corff annibynnol sy'n adolygu cyflogau'r GIG, er mwyn sicrhau bod y pecyn gwobrwyd gorau posibl yn cael ei gynnig. Rwyf wedi gofyn bod y cylch adolygu cyflogau'n cael ei ddwyn ymlaen i'w gynnal cyn gynted ag y bo modd. Serch hynny, Llywodraeth y DU sy'n pennu'r amserlenni, ac mae angen cymorth y Llywodraeth honno i gyllido unrhyw godiadau yn y setliad cyflog.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

## P-05-1091 Dileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Amber Penquet, ar ôl casglu cyfanswm o 63 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Er bod Bagloriaeth Cymru'n darparu llawer o sgiliau cyflogadwyedd pwysig, ac yn dda i'r rheini sy'n mynd yn syth i broffesiwn ar ôl gorffen yn y coleg, mae'n dal myfyrwyr sy'n dymuno mynd i'r brifysgol yn ôl.

Yn flaenorol, roedd myfyrwyr yn gallu astudio hyd at 4 Safon Uwch, neu hyd yn oed 5 ar gyfer y myfyrwyr gorau, ond mae Bagloriaeth Cymru yn eu cyfyngu i dri, ac mae rhai ysgolion hyd yn oed yn eu cyfyngu i 2, sy'n atal myfyrwyr rhag cael addysg eang.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Byddai cael gwared ar Fagloriaeth Cymru ar gyfer y rhai sydd am fynd i'r brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr o Gymru nid yn unig fynd i'r prifysgolion gorau, ond cael gwell addysg hefyd. Mae Bagloriaeth Cymru yn llawn pynciau y mae myfyrwyr addysgedig eisoes yn gwybod amdanynt, ac mae'n gyfwerth ag Astudiaethau Cyffredinol i lawer o brifysgolion. Byddai cael gwared arni ar gyfer y rhai sy'n dymuno mynd i'r brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr fod yn fwy addysgedig. Bydd hyn yn caniatáu i ni gael gweithlu mwy addysgedig a helpu economi Cymru.

Opsiwn arall yr hoffwn ei gyflwyno i gael ei ystyried yw creu cymhwyster UG, a gwneud Bagloriaeth Cymru yn orfodol ar gyfer lefel UG yn unig, sy'n rhoi mwy o amser i fyfyrwyr ar gyfer eu harholiadau a'u galluogi i barhau i astudio 4 pwnc. Gallai ysgolion ddewis a yw hyn yn cael ei wneud dros gyfnod o ddwy flynedd neu mewn blwyddyn.

Mae pobl yn edrych i lawr ar fyfyrwyr Cymru yn gyson, a byddai cael gwell agwedd tuag at addysg (fel yr hyn a wnaed gyda chynnal y cymwysterau UG) yn caniatáu i ni fod yn gryfach a chael ein parchu'n fwy fel Cymry.

#### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gwyr
- Gorllewin De Cymru

# Dileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2020  
Petitions Committee | 26 January 2020

Cyfeirnod: RS20/14886

Rhif y ddeiseb: P-05-1091

Teitl y ddeiseb: Dileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol

Geiriad y ddeiseb: Er bod Bagloriaeth Cymru'n darparu llawer o sgiliau cyflogadwyedd pwysig, ac yn dda i'r rheini sy'n mynd yn syth i broffesiwn ar ôl gorffen yn y coleg, mae'n dal myfyrwyr sy'n dymuno mynd i'r brifysgol yn ôl.

Yn flaenorol, roedd myfyrwyr yn gallu astudio hyd at 4 Safon Uwch, neu hyd yn oed 5 ar gyfer y myfyrwyr gorau, ond mae Bagloriaeth Cymru yn eu cyfyngu i dri, ac mae rhai ysgolion hyd yn oed yn eu cyfyngu i 2, sy'n atal myfyrwyr rhag cael addysg eang..

Byddai cael gwared ar Fagloriaeth Cymru ar gyfer y rhai sydd am fynd i'r brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr o Gymru nid yn unig fynd i'r prifysgolion gorau, ond cael gwell addysg hefyd. Mae Bagloriaeth Cymru yn llawn pynciau y mae myfyrwyr addysgedig eisoes yn gwybod amdanynt, ac mae'n gyfwerth ag Astudiaethau Cyffredinol i lawer o brifysgolion. Byddai cael gwared arni ar gyfer y rhai sy'n dymuno mynd i'r brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr fod yn fwy addysgedig. Bydd hyn yn caniatáu i ni gael gweithlu mwy addysgedig a helpu economi Cymru.

Opsiwn arall yr hoffwn ei gyflwyno i gael ei ystyried yw creu cymhwyster UG, a gwneud Bagloriaeth Cymru yn orfodol ar gyfer lefel UG yn unig, sy'n rhoi mwy o amser i fyfyrwyr ar gyfer eu harholiadau a'u galluogi i barhau i astudio 4



pwnc. Gallai ysgolion ddewis a yw hyn yn cael ei wneud dros gyfnod o ddwy flynedd neu mewn blwyddyn.

Mae pobl yn edrych i lawr ar fyfyrwyr Cymru yn gyson, a byddai cael gwell agwedd tuag at addysg (fel yr hyn a wnaed gyda chynnal y cymwysterau UG) yn caniatáu i ni fod yn gryfach a chael ein parchu'n fwy fel Cymry.

## 1. Cefndir

Cafodd cymhwyster gwreiddiol Baglriaeth Cymru ei gynnal ar ffurf cynllun peilot yn gyntaf ym mis Medi 2003 ac roedd ar gael i'r holl ysgolion a cholegau yng Nghymru ym mis Medi 2007. Adolygydd Baglriaeth Cymru yn dilyn adroddiad Llywodraeth Cymru, sef Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru (2012) a chyflwynwyd Baglriaeth Cymru ar ei newydd wedd ym mis Medi 2015.

Ar hyn o bryd, dyfernir Baglriaeth Cymru ar dair lefel, Sylfaen (lefel 1) yng nghyfnod allweddol 4; Chenedlaethol (lefel 2) yng nghyfnod allweddol 4; ac Uwch (lefel 3). Mae Baglriaeth Cymru yn cynnwys:

- Y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae hyn yn ganolog i gymhwyster Baglriaeth Cymru ac mae iddi bedair elfen: y Prosiect Unigol; yr Her Menter a Chyflogadwyedd; yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang; a Her y Gymuned
- TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg laith, a Mathemateg neu Fathemateg - Rhifedd. Gellir defnyddio elfennau llythrennedd a rhifedd cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru hefyd;
- Dewis o gymwysterau ategol - TGAU, Safon Uwch neu rai galwedigaethol.

Ar y lefelau Sylfaen a Chenedlaethol, yr un maint yw'r Dystysgrif Her Sgiliau â TGAU, a'r un maint â Safon Uwch ar y lefel Uwch. Mae gan y Dystysgrif Her Sgiliau ar y lefel Uwch bwyntiau tariff UCAS. Er mwyn dyfarnu Baglriaeth Cymru, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau a'r cymwysterau eraill y mae'n eu nodi. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster annibynnol y gellir ei gyflawni a'i ddyfarnu heb y cymwysterau eraill sy'n rhan o gymhwyster Baglriaeth Cymru.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Nid oes gofynion statudol i ddysgwr sefyll arholiad allanol. Fodd bynnag, mae gan Llywodraeth Cymru bolisi '**mabwysiadu cyffredinol**' ar gyfer cymhwyster Baglriaeth Cymru gan ysgolion a cholegau.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

### 3.1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ym mis Medi 2018, cychwynnodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) **ymchwiliad i statws cymhwyster Baglriaeth Cymru**. Canfu'r Pwyllgor fod 'diffyg eglurder ynghylch ystyr a gweithrediad polisi Llywodraeth Cymru o ran mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol' ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau mwy manal sy'n ymwneud â mabwysiadu'r cymhwyster yn gyffredinol a ddylai nodi'n glir yr amgylchiadau lle gall dysgwyr gael eu heithrio rhag astudio'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ganllawiau** ym mis Hydref 2019. Mae'n nodi'r canlynol:

Rydym yn annog colegau a'r chweched dosbarth i sicrhau bod eu pobl ifanc yn dilyn dau neu dri chymhwyster Safon Uwch (neu gyfwerth) yn unol â gofynion y cwrs addysg uwch y maent yn bwriadu'i ddilyn, yn ogystal â'r Dystysgrif Uwch. Mae prifysgolion, ar y cyfan, yn gefnogol o'r dull hwn.

Mae hefyd yn nodi'r canlynol:

Mae'n bosibl na fydd astudio'r Dystysgrif yn ddewis cywir i bob dysgwr, ac felly mae angen i ni arfer rhywfaint o hyblygrwydd. Dylai ysgolion a cholegau ddarparu cyfleoedd sydd er budd pennaf eu dysgwyr. Rydym yn disgwyl i ysgolion a cholegau ddefnyddio'u barn broffesiynol drwy roi ystyriaeth ddyledus i lesiant pob person ifanc a'i allu i gyflawni ei lawn botensial, wrth benderfynu a ellir eithrio dysgwr rhag dilyn Baglriaeth Cymru a'r Dystysgrif.

## 3.2. Y Pwyllgor Deisebau

Mae'r Pwyllgor wedi trafod nifer o ddeisebau blaenorol mewn perthynas â chymhwyster Baglriaeth Cymru:

- Cael gwared ar agwedd orfodol Baglriaeth Cymru (2019). Caewyd y ddeiseb yn sgil dileu'r ymarfer penodol y cyfeiriwyd ato yn y ddeiseb, gwaith craffu ar gymhwyster Baglriaeth Cymru a wnaeth y Pwyllgor PPIA, ac ymrwymiad y Gweinidog Addysg i gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru.
- Dileu'r Cymhwyster Baglriaeth Cymru (2016). Caewyd y ddeiseb oherwydd diffyg cyswllt â'r deisebydd.
- Gwneud i brifysgolion Cymru ystyried Baglriaeth Cymru fel Safon Uwch (2020). Caewyd y ddeiseb oherwydd safbwyt y Gweinidog Addysg mai mater i brifysgolion yw sefydlu gofynion mynediad eu cyrsiau ac mae'r gwaith sydd ar droed yn ymateb i argymhellion a wnaeth y Pwyllgor PPIA o'r blaen.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref KW/06828/20  
Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ynghylch deiseb P-05-1091, sy'n gofyn i ddileu Bagloriaeth Cymru orfodol i fyfyrwyr sydd am fynd i'r Brifysgol.

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ddysgwyr ddilyn unrhyw gymwysterau. Felly, nid yw'r Dystysgrif Her Sgiliau (sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru) yn orfodol. Fodd bynnag, polisi Llywodraeth Cymru yw ein bod am i bob dysgwr elwa ar Fagloriaeth Cymru, a chyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau. Drwy ychwanegu sgiliau cyflogadwyedd a datblygiad personol hanfodol at astudiaethau academaidd neu gymwysterau galwedigaethol, mae Bagloriaeth Cymru yn helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch neu addysg bellach, cyflogaeth a bywyd. Mae'n rhoi cyfle i'n dysgwyr feithrin y sgiliau ehangach a'r wybodaeth sy'n cyd-fynd â phedwar diben y cwricwlwm newydd, ac adeiladu arnynt.

Ein polisi yw annog pob ysgol a choleg i'w chynnig fel rhan o'u rhagleni dysgu. Mae polisi cyllido ôl-16 Llywodraeth Cymru yn parhau i alluogi dysgwyr i sefyll hyd at bedair Safon Uwch neu gyfwerth a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'n bosibl na fydd astudio'r Dystysgrif yn ddewis cywir i bob dysgwr, ac felly mae angen i ni arfer rhywfaint o hyblygrwydd. Y cyngor i ysgolion a cholegau yw y dylent ddarparu cyfleoedd sydd er budd pennaf eu dysgwyr. Rydym yn disgwyl iddynt ddefnyddio'u barn broffesiynol drwy roi ystyriaeth ddyledus i lesiant pob person ifanc a'i allu i gyflawni ei lawn botensial, wrth benderfynu a ellir eithrio dysgwr rhag dilyn Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif. Ceir gwybodaeth bellach ar ein gwefan <https://llyw.cymru/bagloriaeth-cymru>.

Mae llawer o brifysgolion bellach yn cynnwys y Dystysgrif mewn cynigion ac mae'r prosiect unigol yn aml yn darparu tystiolaeth dda a pherthnasol mewn datganiadau ategol a chyfweliadau hyd yn oed os nad yw'n cael ei dderbyn fel rhan o'r cynnig gradd. Cydnabyddir bod y Dystysgrif yn gymaradwy mewn her i Safon Uwch ac mae'n derbyn yr un nifer o bwyntiau UCAS. Mae prifysgolion Cymru, a nifer o brifysgolion Grŵp Russell, yn glir eu bod yn gwerthfawrogi'r Dystysgrif ac yn mabwysiadu dull cynyddol hyblyg o'i chyd nabod yn eu cynigion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 1.19

O fewn y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gyda'r ddeiseb, mae'r deisebydd yn awgrymu datblygu cymhwyster UG. Mae Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am bennu gofynion lefel uchel ar gyfer cymwysterau allweddol, gan gynnwys Baglriaeth Uwch Cymru, ac yn ddiweddar cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Uwch newydd. Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben, a gobeithiaf dderbyn gwybodaeth am gynigion arfaethedig yn y gwanwyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chonsortia, CBAC, Cymwysterau Cymru a Colegau Cymru i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu buddion Baglriaeth Cymru a sut y gall gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder ehangach, gan eu galluogi a'u grymuso i gymryd eu lle fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar mewn cymdeithas amrywiol.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

## P-05-1093 Sefydlu Asiantaeth Gorfodi ym maes yr Amgylchedd a Bywyd Gwylt yng Nghymru i ymdrin â throseddau amgylcheddol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert Curtis, ar ôl casglu cyfanswm o 207 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Yn dilyn y golygfeydd dychrynllyd o daflu sbwriel, tipio anghyfreithlon a throseddau bywyd gwylt yn ystod cyfyngiadau Covid-19, ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu Asiantaeth Gorfodi ym maes yr Amgylchedd a Bywyd Gwylt yng Nghymru. Ei nod fyddai ymdrin â throseddau amgylcheddol fel taflu sbwriel, baw ci, tipio anghyfreithlon a gwenwyno a saethu bywyd gwylt yn anghyfreithlon.

Mae angen i'r swyddogion hyn gael eu hariannu gan y sector cyhoeddus drwy godi treth ar blastigau untro a dirwyon a dylent hefyd fod yn atebol i'r sector hwn.

### Gwybodaeth Ychwanegol:

Lansiwyd y ddeiseb hon ar y cyd gan Barry Action for Nature a Chyfeillion Traethau'r Barri, sef dau grŵp amgylcheddol gwirfoddol yn y Barri. Eu nod yw creu amgylchedd mwy diogel i bobl a bywyd gwylt.

Maent yn credu'n gryf bod yn rhaid sicrhau mai addysg sydd wrth wraidd yr ymdrechion i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol a bywyd gwylt, sy'n fygythiad cynyddol, ond maent hefyd yn sylweddoli bod angen rhyw fath o orfodaeth ar frys.

Ni allwn ddibynnu ar awdurdodau lleol sy'n hynod brin o arian i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn ar eu pennau eu hunain. Mae angen defnyddio'r un grym yn gyson drwy Gymru gyfan gan ddangos bod y cyhoedd yn pryderu'n gynyddol am droseddau amgylcheddol a bywyd gwylt.

Ni ddylem orfod dibynnu ar gwmnïau preifat i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan mai eu hamcan canolog nhw yw gwneud elw.

Call cosbau penodol neu gosbau cryfach fod yn ddull gorfodi effeithiol wrth frwydro yn erbyn y broblem gynyddol hon ac atal pobl rhag troseddu yn y maes hwn. Credwn y byddai poblogaeth Cymru yn croesawu gorfodaeth gref ac effeithiol.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

# P-05-1093 Asiantaeth Gorfodi ym maes yr Amgylchedd a Bywyd Gwyllt

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2021  
Petitions Committee | 26 January 2021

Cyfeirnod: RS20/14886-8

Rhif y ddeiseb: P-05-1093

Teitl y ddeiseb: Sefydlu Asiantaeth Gorfodi ym maes yr Amgylchedd a Bywyd Gwyllt yng Nghymru i ymdrin â throseddau amgylcheddol

Geiriad y ddeiseb:

Yn dilyn y golygfeydd dychrynllyd o daflu sbwriel, tipio anghyfreithlon a throseddau bywyd gwylt yn ystod cyfyngiadau Covid-19, ac wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu Asiantaeth Gorfodi ym maes yr Amgylchedd a Bywyd Gwyllt yng Nghymru. Ei nod fyddai ymdrin â throseddau amgylcheddol fel taflu sbwriel, baw ci, tipio anghyfreithlon a gwenwyno a saethu bywyd gwylt yn anghyfreithlon.

Mae angen i'r swyddogion hyn gael eu hariannu gan y sector cyhoeddus drwy godi treth ar blastigau untro a dirwyon a dylent hefyd fod yn atebol i'r sector hwn.

Lansiwyd y ddeiseb hon ar y cyd gan Barry Action for Nature a Chyfeillion Traethau'r Barri, sef dau grŵp amgylcheddol gwirfoddol yn y Barri. Eu nod yw creu amgylchedd mwy diogel i bobl a bywyd gwylt.

Maent yn credu'n gryf bod yn rhaid sicrhau mai addysg sydd wrth wraidd yr ymdrechion i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol a bywyd gwylt, sy'n



fwythiad cynyddol, ond maent hefyd yn sylweddoli bod angen rhyw fath o orfodaeth ar frys.

Ni allwn ddibynnu ar awdurdodau lleol sy'n hynod brin o arian i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn ar eu pennau eu hunain. Mae angen defnyddio'r un grym yn gyson drwy Gymru gyfan gan ddangos bod y cyhoedd yn pryderu'n gynyddol am droseddau amgylcheddol a bywyd gwylt.

Ni ddylem orfod dibynnu ar gwmnïau preifat i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan mai eu hamcan canolog nhw yw gwneud elw.

Gall cosbau penodol neu gosbau cryfach fod yn ddull gorfodi effeithiol wrth frwydro yn erbyn y broblem gynyddol hon ac atal pobl rhag troseddu yn y maes hwn. Credwn y byddai poblogaeth Cymru yn croesawu gorfodaeth gref ac effeithiol.

## 1. Y cefndir

### 1.1. Sbwriel a thipio anghyfreithlon

O dan Adran 89 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau (cyn belled ag y bo'n ymarferol) bod eu tir yn cael ei gadw'n glir o sbwriel a gwastraff, a bod ffyrdd cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu cadw'n lân. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn cynnwys cyrff eraill, gan gynnwys gweithredwyr trafnidiaeth, Awdurdodau'r Goron a sefydliadau addysgol.

Nodir sut y mae'r cyrff yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn y Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff. Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer cyntaf ym mis Ionawr 1991 gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 89(7) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Diwygiwyd y cod ym mis Mehefin 1999 gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Roedd y ddwy fersiwn gyntaf yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r

Alban. Mae'r [rhifyn diweddaraf](#) (Mawrth 2006, a ddiweddarwyd ym mis Medi 2019) yn berthnasol i Loegr yn unig.

Nid yw'r Gwasanaeth Ymchwil wedi gallu dod o hyd i fersiwn o'r Cod Ymarfer ar wefan Llywodraeth Cymru.

O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon (adrannau 87 a 33 yn y drefn honno) yn droseddau. Mae hyn yn golygu y gall awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd ag ystod o gamau gorfodi i fynd i'r afael â'r rhai sydd wedi cyflawni trosedd. Mae hyn yn cynnwys rhoi cosbau sefydlog a mynd â hwy i'r llys os bernir bod y mater yn ddigon difrifol, neu'n drosedd a ailadroddir.

Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Strategaeth Tipio Anghyfreithlon](#). Mae'r strategaeth yn seiliedig ar bedwar maes strategol i leihau'r achosion o dipio anghyfreithlon:

- Addysg: sicrhau bod effeithiau tipio anghyfreithlon yn cael eu deall a'u hystyried yn annerbyniol yn gymdeithasol;
- Galluogi: helpu awdurdodau lleol, sefydliadau partner a'r cyhoedd i leihau tipio anghyfreithlon;
- Tystiolaeth: helpu i nodi'r hyn sy'n dylanwadu ar dipio anghyfreithlon a'r ardaloedd a'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf; a
- Gorfodi; helpu awdurdodau gorfodi i nodi a chosbi unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon.

## 1.2. Troseddau bywyd gwylt

Mae troseddau bywyd gwylt yn cynnwys troseddau fel potsio, lladd neu darfu ar rywogaethau gwarchodedig neu niweidio eu safleoedd bridio a gorffwys, a masnachu yn anghyfreithlon mewn rhywogaethau sydd mewn perygl. Mae [Grŵp Troseddau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad Cymru](#) yn atal ac yn ymchwilio i droseddau yn erbyn bywyd gwylt a chefn gwlad.

Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn nodi sut y maent yn plismona troseddau bywyd gwylt a chefn gwlad:

- [Strategaeth Materion Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 2018-2021](#); a
- [Strategaeth Plismona Troseddau Bywyd Gwylt 2018-2021](#)

Mae tri heddlu Cymru hefyd yn plismona'r troseddau hyn:

- Heddlu Dyfed Powys: Strategaeth Troseddau Cefn Gwlad;
- Heddlu Gogledd Cymru: tîm troseddau cefn gwlad; a
- Heddlu Gwent: tîm troseddau cefn gwlad.

Yn 2017 ariannodd Llywodraeth Cymru 'Adolygiad o Atal Troseddau Bywyd Gwyllt yng Nghymru ac Ymchwilio Iddynt'. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol ac roedd yn cynnwys 21 o argymhellion. Nid yw'r adolygiad ar gael i'r cyhoedd.

## 2. Camau gweithredu gan Llywodraeth Cymru

Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, taflu sbwriel a throseddau bywyd gwylt. Mae'n nodi:

The Welsh Government is committed to dealing robustly with environmental crimes. These anti-social activities are unacceptable and there is no excuse for this type of behaviour. Whilst these problems are not exclusive to Wales, I am determined we become not only a cleaner nation but also an exemplar nation. Our ambition is for Wales free of litter and fly-tipping, and for our natural habitats and rich wildlife to be protected and preserved.

O ran sbwriel a thipio anghyfreithlon, dywed y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn:

- Datblygu cynllun atal sbwriel a thipio anghyfreithlon newydd, a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ionawr 2021;
- Anelu at sicrhau bod gweithgarwch gorfodi yn gyson ac yn deg ledled Cymru;
- Parhau i gefnogi **Taclo Tipio Cymru**, menter a gydlynir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu ymgyrchoedd cyfathrebu, ymgysylltiad â'r gymuned a gweithgarwch rhannu arfer gorau. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun sbwriel a thipio anghyfreithlon newydd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r rhaglen Taclo Tipio Cymru, ac ystyried y posibilrwydd o gryfhau'r gefnogaeth orfodi gyfredol y mae'n ei darparu i awdurdodau lleol;
- Adolygu'r galluoedd gorfodi presennol a'r symiau cosb sefydlog cyfredol sydd ar gael ar gyfer troseddau taflu sbwriel, ac ystyried cynyddu lefelau os oes angen; a

- Chasglu tystiolaeth ar ganlyniadau erlyn cyfredol ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon i benderfynu a oes angen gwneud newidiadau pellach i ganllawiau dedfrydu.

Mewn perthynas â throseddau bywyd gwylt, mae ei llythyr yn nodi bod gwaith partneriaeth sefydledig rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaeth y Llywodraeth a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Dywed fod hyn yn chwarae rhan sylfaenol wrth atal, canfod ac ymchwilio i droseddau a gorfodi'r gyfraith. Mae hefyd yn amlinellu bod ei swyddogion yn gweithio'n agos gyda phedwar heddlu Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff gorfodi eraill drwy Grŵp Troseddau Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad Cymru. Mae'r grŵp yn nodi blaenorriaethau rhanbarthol o ran troseddau bywyd gwylt a chefn gwlad, ac yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli ar lefel y DU. Dywed:

There are currently three police officers in Wales seconded to NRW and embedded in the Rural Crime Teams in North Wales, Dyfed-Powys and Gwent Force areas. We will continue to support NRW's collaboration with Welsh police forces through continued funding of the seconded police officers who are essential to the delivery of this work. We are also directly responsible for the Wildlife Incident Investigation Scheme in Wales which investigates and provides analysis services for wildlife, companion animals and honey bees suspected of being poisoned by pesticides.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r Pwyllgor wedi trafod nifer o ddeisebau cysylltiedig, gan gynnwys:

- **P-05-852** Cyflwyno trwydded i reoli tir ar gyfer saethu adar hela mewn ymgais i roi terfyn ar erlid adar ysglyfaethus;
- **P-05-1071** Dylid argraffu rhif cofrestru cerbydau ar becynnau bwyd brys a werthir drwy ffenest y car; a
- **P-05-803** Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r

papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1093  
Ein cyf/Our ref LG/02830/20

Janet Finch-Saunders MS  
Chair of the Petitions Committee

23<sup>rd</sup> December 2020

Dear Janet,

Thank you for your letter of 30 November, regarding a petition from Robert Curtis calling for the creation of a Welsh Environmental and Wildlife Enforcement Agency which would tackle environmental crimes such as littering, dog fouling, fly tipping and the illegal killing of wildlife.

The Welsh Government is committed to dealing robustly with environmental crimes. These anti-social activities are unacceptable and there is no excuse for this type of behaviour. Whilst these problems are not exclusive to Wales, I am determined we become not only a cleaner nation but also an exemplar nation. Our ambition is for Wales free of litter and fly-tipping, and for our natural habitats and rich wildlife to be protected and preserved.

Local Authorities have a statutory duty under Section 89 of the Environmental Protection Act 1990 (EPA 1990) to ensure, so as far as practicable, their land is kept clear of litter and refuse and public roads for which they are responsible are kept clean. This duty also extends to other bodies which include educational institutions, certain Crown Authorities and transport operators. How these bodies comply with this duty is established in our Code of Practice on Litter and Refuse (CoPLAR) guidance.

Under the EPA 1990, both littering (Section 87) and fly-tipping (Section 33) are criminal offences. This means Local Authorities and Natural Resources Wales (NRW) are able to undertake a range of enforcement actions to deal with those who have committed an offence, including the issuing of fixed penalties and taking them to court if the matter is deemed severe enough or it is a repeat offence.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Local Authority fly-tipping figures published for 2018/19 reported 35,076 fly-tipping incidents across Wales. This is 1 per cent less than 2017/18 and the lowest figure reported since 2014/15. However, we are not complacent about the current position and we are currently developing a new Litter and Fly-tipping Prevention Plan.

Improving enforcement activity in Wales will be a key priority area in the plan. Our aim is for enforcement activity to be applied consistently and fairly across Wales, deterring and reducing littering and fly-tipping offences. While recognising the need for vigorous enforcement action, I believe it needs to be part of a more holistic approach that integrates prevention, collaboration and partnership working.

This is why we continue to support programmes such as Fly-tipping Action Wales (FtAW), an initiative co-ordinated by NRW which delivers communication campaigns, community engagement and shares best practice. As part of the Litter & Fly-tipping Prevention Plan we intend to review the current functions of FtAW programme and explore the potential of strengthening the current enforcement support they provide to Local Authorities in Wales. We will be consulting on the draft plan in January.

Work is also underway to review existing enforcement capabilities across Wales and the current fixed penalty amounts available for littering offences. We will look to increase levels if needed. We are also gathering evidence on current prosecution outcomes for fly-tipping offences in Wales to determine whether further changes to sentencing guidelines are required.

On wildlife crime, well-established partnership working between the Welsh Government, NRW, the Police, Fire Service, Government Agency Intelligence Network and the Crown Prosecution Service plays a fundamental role in the prevention, detection and investigation of offences and the enforcement of the law. My officials work closely with the four Welsh police forces, NRW and other enforcement bodies through the Wales Wildlife and Rural Crime Group. The group identifies regional wildlife and rural crime priorities and ensures Welsh interests are represented at UK level.

There are currently three police officers in Wales seconded to NRW and embedded in the Rural Crime Teams in North Wales, Dyfed-Powys and Gwent Force areas. We will continue to support NRW's collaboration with Welsh police forces through continued funding of the seconded police officers who are essential to the delivery of this work. We are also directly responsible for the Wildlife Incident Investigation Scheme in Wales which investigates and provides analysis services for wildlife, companion animals and honey bees suspected of being poisoned by pesticides.

I announced last year I would be a species champion for raptors. As part of the role I hosted a meeting in February on raptor persecution in Wales. We have agreed to fully fund the continuation of the RSPB Hen Harrier tagging work started in 2015 as part of an EU LIFE project and we have also agreed to fund a Raptor Project Officer post for Wales jointly with RSPB.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in response.

In summary, our approach is seen by many across the UK as an exemplar of how to deal effectively with rural and wildlife crime. We initiated a review in 2017 which highlighted the success of both seconding police officers to NRW and setting up dedicated rural crime teams within the Welsh forces, giving more resources and a much higher profile to an area which had previously often been seen as a lower priority.

Yours sincerely,



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

